



Cynhadledd yr Esgobaeth | Diocesan Conference

Yn ymgorffori Cyfarfod Blynnyddol Bwrdd Cyllid Esgobaeth Bangor | Incorporating the Annual General Meeting of the Bangor Diocesan Board of Finance

Dogfennaeth ar gyfer cyfarfod 2021 ynghylch strwythur ar wedd newydd arfaethedig ar gyfer ein helusennau canolog esgobaethol

Documentation for the 2021 meeting regarding a proposed refreshed structure for
our central diocesan charities

Cynnwys

Contents

Tud. Page	Dogfen	Document
2	Cyflwyniad i strwythur ar wedd newydd arfaethedig ar gyfer ein helusennau canolog esgobaethol	An introduction to a proposed refreshed structure for our central diocesan charities
6	Penderfyniad arbennig o dan Bennod 2 o Ran 13 o Ddeddf Cwmniâu 2006	A special resolution under Chapter 2 of Part 13 of the Companies Act 2006
7	Cyfansoddiad arfaethedig Bwrdd Cyllid Esgobaeth Bangor (SEC) (Cymraeg)	Proposed constitution for the Bangor Diocesan Board of Finance (CIO) (Welsh-language)
28	Cyfansoddiad arfaethedig Bwrdd Cyllid Esgobaeth Bangor (SEC) (Saesneg)	Proposed constitution for the Bangor Diocesan Board of Finance (CIO) (English-language)
49	Cyfansoddiad arfaethedig Gwaddol Deiniol Sant (SEC) (Cymraeg)	Proposed constitution for the Saint Deiniol Foundation (CIO) (Welsh-language)
72	Cyfansoddiad arfaethedig Gwaddol Deiniol Sant (SEC) (Saesneg)	Proposed constitution for the Saint Deiniol Foundation (CIO) (English-language)

Cyflwyniad i strwythur ar wedd newydd arfaethedig ar gyfer ein helusennau canolog esgobaethol | An introduction to a proposed refreshed structure for our central diocesan charities

1	Y strwythur cyfredol	The current structure
1.1	Mae Esgobaeth Bangor yn y sefyllfa anarferol o feddu dwy elusen esgobaethol ganolog, sef Bwrdd Cyllid Esgobaeth Bangor (BDBF) ac Ymddiriedolaeth Esgobaeth Bangor (BDT).	The Diocese of Bangor is in the unusual position of having two central diocesan charities, namely the Bangor Diocesan Board of Finance (BDBF) and the Bangor Diocesan Trust (BDT).
1.2	Yn fras, rheolir bywyd gweithredol canolog yr esgobaeth trwy'r BDBF (e.e. ef yw'r corff cyflogi ar gyfer staff lleyg Tîm Deiniol, ac mae'n derbyn cyfraniadau Cronfa Gweinidogaeth yr Esgob gan Ardalioedd Gweinidogaeth) ac fe feddir cynillion a buddsoddiadau canolog yr esgobaeth gan y BDT. Fodd bynnag, nid yw hon yn sefyllfa glir (e.e. mae'r BDBF yn meddu ar ei gynillion a'i fuddsoddiadau ei hun ac mae ganddo bolisi cronyfeydd wrth gefn sy'n seiliedig ar gynnal gwaddol cyfalaf sy'n cynhyrchu incwm, ac mae Ysgolion Eglwys ym meddiant yn y BDT).	Broadly speaking, the central operational life of the diocese is managed through the BDBF (e.g. it is the employing body for lay Tîm Deiniol staff, and it receives Bishop's Ministry Fund contributions from Ministry Areas) and the central savings and investments of the diocese are held by the BDT. However, this is not a clear-cut position (e.g. the BDBF holds its own savings and investments and has a reserves policy based on maintaining an income-generating capital endowment, and Church Schools are vested in the BDT).
1.3	Mae'r ddwy elusen wedi'u cofrestru fel elusennau gyda chofrestrydd yt elusennau, y Comisiwn Elusennau. Mae'r ddwy elusen hefyd wedi'u hymgorffori fel cwmnïau cyfyngedig ac wedi'u cofrestru felly gyda chofrestrydd y cwmnïau, Tŷ'r Cwmnïau. Mae ymgorffori yn fodd sefydledig o gyfyngu rhwymedigaeth ymddiriedolwyr elusennau sydd â gweithrediadau cymhleth. Tra bod yn rhaid i elusen fod ag ymddiriedolwyr, mae gan elusen sydd hefyd yn gwmni corfforedig gyfarwyddwyr (sydd yr un fath â'r ymddiriedolwyr) ac aelodau (sy'n cwrdd mewn Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol).	The two charities are registered as charities with registrar of charities, the Charity Commission. The two charities are also incorporated as limited companies and registered as such with the registrar of companies, Companies House. Incorporation is an established means of limiting the liability of the trustees of charities that have complicated operations. Whereas a charity must have trustees, a charity that is also an incorporated company also has directors (who are the same as the trustees) and members (who meet at an Annual General Meeting).
1.5	Mae bodolaeth Bwrdd Cyllid yr Esgobeth wedi'i fandadu gan Gyfansoddiad yr Eglwys yng Nghymru, ond nid yw'r Cyfansoddiad yn nodi ei strwythur corfforaethol.	The existence of a Diocesan Board of Finance is mandated by the Constitution of the Church in Wales, but the Constitution does not specify its corporate structure.

1.6	Ers adolygiad 2014-2015 o bwyllogorau yn yr esgobaeth, penodwyd yr un unigolion ag (i) ymddiriedolwyr / cyfarwyddwyr y BDBF; (ii) ymddiriedolwyr / cyfarwyddwyr y BDBF; (iii) aelodau Pwyllgor Sefydlog Cynhadledd yr Esgobaeth.	Since the 2014-2015 review of committees within the diocese, the same individuals have been appointed as (i) trustees / directors of the BDBF; (ii) trustees / directors of the BDBF; (iii) members of the Standing Committee of the Diocesan Conference.
2	Gweithio tuag at strwythur amgen	Work towards a revised structure
2.1	Mae'r ymddiriedolwyr wedi derbyn cyngor cyfreithiol eleni yngylch y strwythur elusennol a chwmniol esgobaethol canolog. Yr ysgogiad oedd awydd i symleiddio'r strwythur, o bosibl trwy ddileu'r BDT. Byddai hyn wedi symleiddio gweinyddiaeth yr elusennau (gan arwain at ddim ond un bwrdd ymddiriedolwyr ag un agenda, a dim ond dau adroddiad blynnyddol, un yr un i'r Comisiwn Elusennau a Thŷ'r Cwmnïau), a strwythur mwy tryloyw (gyda phob un o'r cronfeydd esgobaethol canolog wedi'u cynnwys mewn mantolen sengl).	The trustees have sought legal advice this year about the central diocesan charity and company structure. The impetus was a desire to simplify the structure, potentially by eliminating the BDT. This would have simplified the administration of the charities (resulting in only one board of trustees with a single agenda, and only two annual reports, one each to the Charity Commission and Companies House), and a more transparent structure (with all of the diocese's central funds included in a single balance sheet).
2.2	Mae'r cyngor a dderbyniwyd, ochr yn ochr â thrafodaethau pellach dwys ac ymgynghori â Chyngor yr Esgob, wedi arwain at fodel amgen.	The advice received, alongside intensive further discussions and consultation with the Bishop's Council, have resulted in an alternative model.
3	Strwythur ar ei newydd wedd	A refreshed structure
3.1	Mae'r model amgen yn cynnig strwythur ar ei newydd wedd sy'n cynnal y ddwy elusen ond mewn modd mwy pwrpasol.	The model that has emerged posits a refreshed structure that maintains the two charities but in a more purposeful manner.
3.2	Mae'n rhagweld Bwrdd Cyllid Esgobaeth Bangor (BDBF+) ar ei newydd wedd sy'n gyfrifol am strategaeth, adnoddau a gweithrediadau esgobaethol canolog beunyddiol. Byddai hyn yn cynnwys cyfrifoldebau statudol dros Ysgolion Eglwys. Mae'n debyg na fyddai hyn yn cynnwys cynnal gwaddol cyfalaf sy'n cynhyrchu incwm.	It envisages a refreshed Bangor Diocesan Board of Finance (BDBF+) that is responsible for day-to-day operational central diocesan strategy, resources and operations. This would include statutory responsibilities for Church Schools. This would likely not include the maintenance of an income-generating capital endowment.
3.3	Mae hefyd yn rhagweld endid newydd, Gwaddol Deiniol Sant (SDF), a fyddai'n gyfrifol am ddarparu adnoddau ar gyfer strategaeth esgobol hirdymor trwy bolisi cronfeydd wrth gefn a llai gynnwys cynnal gwaddol sy'n cynhyrchu incwm a rhoi grantiau cyfalaf o'i waddol gwariadwy. Byddai asedau'r SDF yn cynnwys cronfeydd y BDT, safleoedd Ysgol Eglwys, ac o bosibl gronfeydd a ddelir ac a reolir ar hyn o bryd fel gwaddol cyfalaf sy'n cynhyrchu incwm gan y BDBF.	It also envisages a new entity, the Saint Deiniol Foundation (SDF), that would be responsible for resourcing long-term episcopal strategy through a reserves policy that may include the maintenance of an income-generating endowment and grant-making from the capital of its expendable endowment. The SDF's assets would include the BDT funds, Church School sites, and potentially funds currently held and managed as an income-generating capital endowment by the BDBF.

3.4	<p>Er mwyn cynnal y strwythur symlach a gyflawnwyd gan adolygiad 2014-2015 o bwylgorau'r esgobaeth, mae'r strwythur ar ei newydd wedd yn rhagweld Cynhadledd yr Esgobaeth yn penodi ymddiriedolwyr y BDBF+ yn aelodau Pwyllgor Sefydlog Cynhadledd yr Esgobaeth. Fodd bynnag, er mwyn cynorthwyo gyda rheoli unrhyw wrthdaro buddiannau neu deyrngarwch posibl rhwng yr SDF a'r BDBF+ a allai ddeillio o grantiau a roddir gan yr SDF i'r BDBF+, ac er mwyn pwysleisio mandad trem i'r gorwel, tymor hir yr SDF, mae'r strwythur ar ei newydd wedd yn rhagweld bwrdd ymddiriedolwyr llai ac ar wahân i raddau helaeth ar gyfer yr SDF, a allai gwrdd yn sylweddol llai aml na bwrdd ymddiriedolwyr y BDBF+. Mae aelodaeth arfaethedig bwrdd ymddiriedolwyr yr SDF yn ceisio cydbwyso pellter o fywyd gweithredol yr esgobaeth ag ymlyniad cryf ag arweinyddiaeth esgobol yr esgobaeth.</p>	<p>To maintain the streamlined structure accomplished by the 2014-2015 review of committees within the diocese, the refreshed structure envisages the Diocesan Conference appointing the trustees of the BDBF+ as the members of the Diocesan Conference Standing Committee. However, in order assist with the management of any potential conflicts of interest or loyalty between the SDF and the BDBF+ that could arise from grants made by the SDF to the BDBF+, and in order to emphasise the long-term, horizon-scanning mandate of the SDF, the refreshed structure envisages a smaller and largely separate board of trustees for the SDF, which might meet significantly less frequently than the BDBF+'s board of trustees. The proposed membership of the SDF's board of trustees seeks to balance a distance from the operational life of the diocese with a strong attachment to the diocese's episcopal leadership.</p>
3.5	<p>Mae'r strwythur ar ei newydd wedd yn rhagweld y BDBF+ a'r SDF fel Sefydliadau Corfforedig Elusennol (CIOs). Mae CIO yn fod i ymgorffori elusen heb orfod ymgorffori'r elusen fel cwmni a'i chofrestru felly gyda Thŷ'r Cwmnïau. Dim ond gydag un cofrestrydd y mae angen cofrestru CIOs, sef y Comisiwn Elusennau. Felly mae'n darparu cyfyngiad ar rhwymedigaeth ymddiriedolwyr heb y baich gweinyddol ychwanegol o gofrestru gydag ail gofrestrydd. Fel ffordd o drosglwyddo o'r endidau presennol i'r endidau newydd, mae'r strwythur ar ei newydd wedd yn rhagweld y bydd y BDBF yn trosi i'r BDBF+ (gan ddiwygio amcanion y BDBF i gyd-fynd ag amcanion y BDBF+ cyn y trawsnewid), er mwyn galluogi gwrtihrychau ychydig yn ehangach a symleiddio cronfeydd, rhagwelir y bydd yr SDF wedi'i sefydlu fel CIO newydd, gyda'r BDT yn cael ei ddiddymu yn y pen draw.</p>	<p>The refreshed structure envisages the BDBF+ and SDF as Charitable Incorporated Organisations (CIOs). A CIO is a means of incorporating a charity without having to incorporate the charity as a company and register it as such with Companies House. CIOs need only be registered with a single registrar, namely the Charity Commission. It therefore provides a limitation on the liability of trustees without the additional administrative burden of registration with a second registrar. As a means of transitioning from the existing entities to the new entities, the refreshed structure envisages the BDBF simply converting to the BDBF+ (the objects of the BDBF having been amended to match the objects of BDBF+ prior to the conversion), whereas, to enable slightly broader objects and a streamlining of funds, it is envisaged that the SDF is established as a new CIO, with the BDT eventually being dissolved.</p>
3.6	<p>Mae'r strwythur ar ei newydd wedd hefyd yn rhagweld (i) datganiad o amcanion sydd wedi'i adnewyddu ac sy'n gyson ar gyfer y BDBF+ a'r SDF; (ii) y BDBF+ a'r SDF yn gallu gweithredu fel asiantau ar gyfer Ardaloedd Gweinidogaeth; (iii) aelodau Cynhadledd yr Esgobaeth yn gweithredu fel aelodau'r BDBF+ a'r SDF.</p>	<p>The refreshed structure also envisages (i) a refreshed and consistent statement of the objects of the BDBF+ and the SDF; (ii) the BDBF+ and the SDF being able to act as agents for Ministry Areas; (iii) the members of the Diocesan Conference acting as the members of the BDBF+ and the SDF.</p>

4	Gweithredu strwythur ar ei newydd wedd	Implementing a refreshed structure
4.1	Byddai angen i aelodau Cynhadledd yr Esgobaeth wneud penderfyniad ffurfiol i drosi'r BDBF yn CIO fel aelodau'r BDBF, ochr yn ochr â phenderfyniad i alinio amcanion. Byddai angen i'w hymmdiriedolwyr cyntaf wneud penderfyniad i ffurfio'r SDF.	A formal decision to convert the BDBF into a CIO would need to be taken by the members of the Diocesan Conference as members of the BDBF, alongside a decision to align objects. A decision to form the SDF would need to be taken by its first trustees.
4.2	Felly, yn ffurfiol, rhoddir y cynnig a amlinellir dros y dudalen ger bron cyfarfod ar-lein Cynhadledd yr Esgobaeth ar 27 Medi. Gan mai dim ond mewn cyfarfodydd corfforol y gellir cymeradwyo penderfyniadau ar hyn o bryd, rhoddir y cynnig i'w gymeradwyo ger bron cyfarfod 2 Hydref o Gynhadledd yr Esgobaeth (yn ymgynnill fel aelodau Bwrdd Cyllid Esgobaeth Bangor yn eu Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol) yn syth ar ôl y dathliad o'r Cymun Bendigaid.	Thus, formally, the resolution over the page will be presented for discussion at the online meeting of the Diocesan Conference on 27 September. As resolutions can, at present, only be approved by in person meetings, the resolution will be presented for decision immediately after the celebration of the Holy Eucharist at the 2 October meeting of the Diocesan Conference (convening as the members of the Bangor Diocesan Board of Finance at their Annual General Meeting).
4.3	Mae cyfansoddiadau arfaethedig ar gyfer y ddau Sefydliad ynghlwm wrth yr adroddiad hwn	Proposed constitutions for the two CIOs are appended to this report.

Medi | September 2021

	Penderfyniad arbennig o dan Bennod 2 o Ran 13 o Ddeddf Cwmnïau 2006	A special resolution under Chapter 2 of Part 13 of the Companies Act 2006
	Mae'r aelodau trwy hyn yn penderfynu:	The members hereby resolve:
i	I drosi'r cwmni'n sefydliad elusennol corfforedig (gan fabwysiadu cyfansoddiad mor agos at yr hyn sy'n atodiedig i'r cynnig hwn ¹ ag y mae'r Comisiwn Elusennau yn ei gymeradwyo) a diwygio'r cofnod yn y gofrestr elusennau yn unol â hynny	To convert the company into a charitable incorporated organisation (adopting a constitution as close to that annexed to this resolution ² as the Charity Commission approve) and to amend the entry in the register of charities accordingly
ii	I ddarparu y bydd amcanion y Sefydliad fel a ganlyn: Hyrwyddo gwaith a dibenion crefyddol ac elusennol yr Eglwys yng Nghymru yn Esgobaeth Bangor (yn ôl y cyfansoddwyd o bryd i'w gilydd) ac os a chyn belled nad oes angen arian ar gyfer y diben hwnnw i hyrwyddo gwaith a dibenion elusennol yr Eglwys yng Nghymru trwy unrhyw ddibenion elusennol a benderfynir gan yr ymddiriedolwyr o bryd i'w gilydd	To provide that the objects of the CIO shall be: To advance the religious and charitable work and purposes of the Church in Wales in the Diocese of Bangor (as constituted from time to time) and if and in so far as funds are not required for that purpose to advance the charitable work and purposes of the Church in Wales through any charitable means determined by the trustees from time to time
iii	Yn ddarostyngedig i gael caniatâd y Comisiwn Elusennau o dan a198 o Ddeddf Elusennau 2011, i ddisodli geiriad cyfredol amcanion y Cwmni fel y nodir yn erthygl 3 (Hyrwyddo a chynorthwyo gwaith a dibenion yr Eglwys yng Nghymru ac yn Nhalaith Cymru yn gyffredinol ac yn arbennig yn esgobaeth Bangor am y tro a chydymffurfio â rheolau a rheoliadau cyfansoddiad yr Eglwys yng Nghymru) a mewnosod y canlynol: Hyrwyddo gwaith a dibenion crefyddol ac elusennol yr Eglwys yng Nghymru yn Esgobaeth Bangor (yn ôl y cyfansoddwyd o bryd i'w gilydd) ac os a chyn belled nad oes angen arian ar gyfer y diben hwnnw i hyrwyddo gwaith a dibenion elusennol yr Eglwys yng Nghymru trwy unrhyw ddibenion elusennol a benderfynir gan yr ymddiriedolwyr o bryd i'w gilydd	Subject to obtaining the consent of the Charity Commission under s198 of the Charities Act 2011, to replace the current wording of the objects of the Company as set out in article 3 (To promote and assist the work and purposes of the Church in Wales and in the Province of Wales generally and in particular in the diocese of Bangor for the time being and to comply with the rules and regulations of the constitution of the Church in Wales) with the following: To advance the religious and charitable work and purposes of the Church in Wales in the Diocese of Bangor (as constituted from time to time) and if and in so far as funds are not required for that purpose to advance the charitable work and purposes of the Church in Wales through any charitable means determined by the trustees from time to time
iv	Cyfarwyddo aelodau Pwyllgor Cyllid (sef ymddiriedolwyr) y Cwmni i gymryd yr holl gamau angenheidiol i roi'r penderfyniad hwn ar waith	To instruct the members of the Finance Committee (being the trustees) of the Company to take all necessary steps to implement this resolution

Medi | September 2021

¹ tudalennau 7-27 yn Gymraeg a thudalennau 28-48 yn Saesneg

² pages 7-27 in Welsh and pages 28-48 in English

CYFANSODDIAD
Bwrdd Cyllid Esgobaeth Bangor (SEC)
The Bangor Diocesan Board of Finance (CIO)

SEFYDLIAD CORFFOREDIG ELUSENNOL (MODEL CYSWLLT)
GYDA RHIF COFRESTRU SEFYDLIAD CORFFOREDIG ELUSENNOL: []

LEE BOLTON MONIER-WILLIAMS

1 The Sanctuary

Westminster

Llundain

SW1P 3JT

Ffôn 020 7222 5381

Cyf: JZG/301901869

**Cyfansoddiad Sefydliad Corfforedig Elusennol gydag aelodau â phleidlais heblaw ei
ymddiriedolwyr elusennol**
(Cyfansoddiad Model ‘Cyswllt’)

Dyddiad y cyfansoddiad (newidiwyd ddiwethaf):

.....
1. Enw

Enw'r Sefydliad Corfforedig Elusennol ("y Sefydliad") yw
Bwrdd Cyllid Esgobaeth Bangor (SEC) The Bangor Diocesan Board of Finance (CIO)

2. Lleoliad cenedlaethol y brif swyddfa

Mae'n rhaid i'r Sefydliad fod â phrif swyddfa yng Nghymru neu Loegr. Mae prif swyddfa'r Sefydliad yng Nghymru.

3. Amcan

Amcan y Sefydliad yw
Hyrwyddo gwaith a dibenion crefyddol ac elusennol yr Eglwys yng Nghymru yn Esgobaeth Bangor (yn ôl y cyfansoddwyd o bryd i'w gilydd) ac os a chyn belled nad oes angen arian ar gyfer y diben hwnnw i hyrwyddo gwaith a dibenion elusennol yr Eglwys yng Nghymru trwy unrhyw ddibenion elusennol a benderfynir gan yr ymddiriedolwyr o bryd i'w gilydd.

4. Hawliau

- Mae gan y Sefydliad hawl i wneud unrhyw beth i hyrwyddo ei amcan(ion) neu sy'n arwain neu a ddaw yn sgil gwneud hynny. Yn benodol, mae hawliau'r Sefydliad yn cynnwys hawl i:
- (1) fenthyg arian ac i roi arwystl ar y cyfan neu ran o'i eiddo fel sicrwydd ar gyfer ad-dalu'r arian a fenthycwyd. Mae'n rhaid i'r Sefydliad gydymffurfio, yn ôl y gofyn, gydag adrannau 124 ac 125 o Ddeddf Elusennau 2011 os yw'n dymuno morgeisio tir;
 - (2) prynu, cymryd prydles neu gyfnewid, llogi neu, fel arall, gaffael a chynnal unrhyw eiddo a darparu cyfarpar ar gyfer ei ddefnyddio;
 - (3) gwerthu, prydlesu neu, fel arall, waredu unrhyw ran o'r eiddo sy'n perthyn i'r Sefydliad. Wrth ymarfer yr hawl hwn, mae'n rhaid i'r Sefydliad gydymffurfio, yn ôl y gofyn, gydag Adrannau 117 ac 119-123 o Ddeddf Elusennau 2011(4) cyflogi a thalu'r staff sydd ei angen i gynnal gwaith y Sefydliad. Gall y Sefydliad gyflogi neu dalu i ymddiriedolwr yr elusen, ond ddim ond i gymaint graddau ag sy'n cael ei ganiatáu gan gymal 6 (Buddion a thaliadau i ymddiriedolwyr elusennau a phersonau cysylltiedig) a chyn belled â bod hynny'n cydymffurfio ag amodau'r cymalau hynny.
 - (5) adneuo neu fuddsoddi arian, cyflogi rheolwr ariannol proffesiynol a threfnu i fuddsoddiadau neu eiddo arall y sefydliad gael ei ddal yn enw enwebai, yr un fath, ac yn amodol ar yr un amodau, ag y mae ymddiriedolwyr ymddiriedolaeth yn gallu gwneud o dan Ddeddf Ymddiriedolwyr 2000.
 - (6) gweithredu fel ymddiriedolwr neu asiant i unrhyw elusen gan gynnwys unrhyw ardal weinidogaeth neu gyngor plwyf;
 - (7) sefydlu neu gaffael cwmni neu gwmnïau masnachu.

5. Defnyddio incwm ac eiddo

- (1) Dim ond ar gyfer hyrwyddo ei amcanion y dylid defnyddio incwm ac eiddo'r Sefydliad.
- (a) Mae gan ymddiriedolwr elusen hawl i gael ei ad-dalu o eiddo'r Sefydliad neu gellir talu allan o eiddo o'r fath dreuliau rhesymol a gododd yn briodol rhwng yr ymddiriedolwr a'r Sefydliad wrth weithredu ar ran y Sefydliad.
 - (b) Gall ymddiriedolwr elusen elwa o yswiriant indemniad i ymddiriedolwyr a brynwyt ar draul y Sefydliad yn unol â, ac yn amodol ar yr amodau yn, adran 189 o Ddeddf Elusennau 2011.
- (2) Ni ellir talu dim o incwm nac eiddo'r Sefydliad, na throsglwyddo'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol drwy ddifidend, bonws neu, mewn unrhyw ffordd arall fel elw, i unrhyw aelod o'r Sefydliad. Nid yw hyn yn rhwystro unrhyw aelod nad yw'n ymddiriedolwr o'r elusen dderbyn:
- (a) budd o'r Sefydliad fel buddiolwr o'r Sefydliad;
 - (b) tâl rhesymol neu briodol am unrhyw nwyddau neu wasanaethau a gyflenwir i'r Sefydliad.
- (3) Nid oes unrhyw beth yn y cymal hwn sy'n rhwystro ymddiriedolwr neu berson â chysylltiad â'r elusen rhag derbyn unrhyw fudd neu daliad sy'n cael ei awdurdodi gan Gymal 6.
- (4) Gall ymddiriedolwr neu aelod sy'n glerigydd dderbyn gan y Sefydliad unrhyw fudd neu fuddion (ariannol neu fel arall) a benderfynir gan y Sefydliad mewn cysylltiad neu oherwydd dal unrhyw swydd eglwysig yn yr esgobaeth.

6. Buddion a thaliadau i ymddiriedolwyr yr elusen a phersonau cysylltiedig

(1) Darpariaethau cyffredinol

Nid oes gan ymddiriedolwr neu berson cysylltiedig hawl i:

- (a) brynu na derbyn unrhyw nwyddau neu wasanaethau gan y Sefydliad ar delerau mwy ffafriol nag sydd ar gael i'r cyhoedd.
- (b) werthu nwyddau, gwasanaethau neu unrhyw fuddiant mewn tir i'r Sefydliad;
- (c) yn amodol ar gymal 5(4), cael ei gyflogi gan, neu dderbyn tâl am wasanaeth, gan y Sefydliad;
- (d) derbyn unrhyw fuddion ariannol eraill gan y Sefydliad;
oni bai y caniateir y taliad neu'r budd gan is-gymal (2) o'r cymal hwn, neu ei fod yn cael ei awdurdodi gan lys neu y cafwyd caniatâd ysgrifenedig y Comisiwn Elusennau ("y Comisiwn") ymlaen llaw. Yn y cymal hwn, ystyr "budd ariannol" yw budd uniongyrchol neu anuniongyrchol, sydd un ai'n arian neu'n werth ariannol.

(2) Ystod a'r hawliau sy'n caniatáu buddion yr ymddiriedolwyr neu bersonau cysylltiedig

- (a) Gall ymddiriedolwr yr elusen neu berson cysylltiedig dderbyn budd gan y Sefydliad fel buddiolwr y Sefydliad cyn belled nad yw mwyafrif yr ymddiriedolwyr yn elwa yn y fath fodd.
- (b) Gall ymddiriedolwr yr elusen neu berson cysylltiedig fynd i gcontract i gyflenwi gwasanaethau, neu nwyddau sy'n cael eu cyflenwi mewn cysylltiad â darparu gwasanaethau, i'r Sefydliad lle mae hynny'n cael ei ganiatáu'n unol, ac yn amodol ar yr amodau yn, adrannau 185 i 188 o Ddeddf Elusennau 2011.
- (c) Yn amodol ar is-gymal (3) o'r cymal hwn, gall ymddiriedolwr elusen neu berson cysylltiedig ddarparu i'r Sefydliad nwyddau nad ydynt yn cael eu cyflenwi mewn cysylltiad â gwasanaethau y mae ymddiriedolwr yr elusen neu berson cysylltiedig yn eu darparu i'r Sefydliad.
- (d) Gall ymddiriedolwr elusen neu berson cysylltiedig dderbyn llogau ar arian a fenthycwyd i'r Sefydliad ar raddfa resymol a phriodol ac na ddylai fod yn uwch na chyfradd Banc Lloegr (ac a elwir hefyd y gyfradd sylfaenol).
- (e) Gall ymddiriedolwr elusen neu berson cysylltiedig dderbyn rhent am eiddo sy'n cael ei osod gan yr ymddiriedolwr, neu berson cysylltiedig, i'r Sefydliad. Mae'n rhaid i swm y rhent a thelerau eraill y brydles fod yn rhesymol ac yn briodol. Mae'n rhaid i ymddiriedolwr elusen sydd â diddordeb fynd allan o unrhyw gyfarfod lle mae'r cynnig neu rent neu delerau neu amodau eraill y brydles yn cael eu trafod.
- (f) Bydd ymddiriedolwr yr elusen neu berson cysylltiedig yn gallu cymryd rhan mewn gweithgareddau masnachu neu godi arian arferol y Sefydliad ar yr un telerau â'r cyhoedd.

(3) **Taliadau ar gyfer cyflenwi nwyddau'n unig - rheolaethau**

Dim ond os bydd pob un o'r amodau canlynol yn cael eu bodloni y gall y Sefydliad a'i ymddiriedolwyr ddibynnu ar yr awdurdod sydd yn is-gymal (2)(c) o'r cymal hwn:

- (a) Fod y swm neu'r swm uchaf o daliad ar gyfer y nwyddau'n cael ei ddangos mewn cytundeb ysgrifenedig rhwng y Sefydliad ac ymddiriedolwr yr elusen neu berson cysylltiedig sy'n cyflenwi'r nwyddau ("y cyflenwr").
- (b) Nad yw'r swm neu'r swm uchaf o daliad am y nwyddau'n fwy na'r hyn sy'n rhesymol o gofio am amgylchiadau cyflenwi'r nwyddau o dan sylw.
- (c) Fod ymddiriedolwyr eraill yr elusen yn fodlon ei bod o fudd pennaf y Sefydliad gysylltu â'r cyflenwr yn hytrach nag â rhywun nad yw'n ymddiriedolwr yr elusen neu'n berson cysylltiedig. Wrth benderfynu ar hyn, mae'n rhaid i ymddiriedolwyr yr elusen gydbwyso manteision dod i gytundeb trwy ymddiriedolwr yr elusen neu berson cysylltiedig yn erbyn anfanteision gwneud hynny.
- (d) Nad yw'r cyflenwr yn bresennol yn y rhan o'r cyfarfod pan mae'r cynnig yn cael ei drafod i fynd i gcontract neu drefniant gyda nhw ar gyfer cyflenwi nwyddau i'r Sefydliad.
- (e) Nad yw'r cyflenwr yn pleidleisio ar unrhyw ran o'r mater ac nad yw'n cael ei gyfrif wrth benderfynu a oes cworwm o ymddiriedolwyr yn bresennol yn y cyfarfod.
- (f) Fod y rheswm dros y penderfyniad yn cael ei gofnodi gan ymddiriedolwyr yr elusen yn y llyfr cofnodion.
- (g) Nad yw mwyafrif ymddiriedolwyr yr elusen sydd mewn swydd yr adeg hynny yn derbyn cydnabyddiaeth neu dal a awdurdodir gan gymal 6.

(4) Yn is-gymalau (2) a (3) y cymal hwn:

- (a) Mae'r 'Sefydliad' yn cynnwys unrhyw gwmni y mae'r Sefydliad:
 - (i) yn dal mwy na 50% o'r cyfranddaliadau; neu
 - (ii) yn rheoli mwy na 50% o hawliau pleidleisio sydd ynghlwm â'r cyfranddaliadau hynny; neu
 - (iii) â hawl i benodi un neu fwy o gyfarwyddwyr ar fwrdd y cwmni;
- (b) mae "person cysylltiedig" yn cynnwys unrhyw berson o fewn y diffiniad sydd yng nghymal 30 (Dehongliad);

7. Gwrthdrawiad buddiannau a gwrthdrawiad teyrngarwch

(1) Mae'n rhaid i ymddiriedolwr elusen:

- (a) ddatgan natur ac ystod unrhyw fuddiant, uniongyrchol neu anuniongyrchol, y mae ganddo ef neu hi yn y trafodiad neu'r trefniant arfaethedig gyda'r Sefydliad neu mewn unrhyw drafodiad neu drefniant gyda'r Sefydliad nad yw wedi'i ddatgan o'r blaen; a
 - (b) neilltuo ei hunan o unrhyw drafodaethau ymddiriedolwyr yr elusen lle mae'n bosibl y byddai gwrthdaro buddiannau'n codi rhwng eu dyletswydd i weithredu'n unig er bydd y Sefydliad ac unrhyw fuddiant personol (gan gynnwys ond nid yn gyfyngedig i fuddiannau ariannol).
- (2) O ran trafodion rhwng y Sefydliad a Gwaddol Deiniol Sant, ni fydd unrhyw wrthdrawiad teyrngarwch yn codi yn unig oherwydd bod ymddiriedolwr hefyd yn ymddiriedolwr o Waddol Deiniol Sant.
- (3) Rhaid i unrhyw ymddiriedolwr yr elusen sy'n neilltuo ei hunan o unrhyw drafodaeth yn unol â'r cymal hwn beidio â phleidleisio na chael ei gyfrif fel rhan o'r cworm mewn unrhyw benderfyniad gan ymddiriedolwyr yr elusen yngylch y mater hwn.

8. Atebolwydd aelodau i gyfrannu at asedau'r Sefydliad pe byddai'n cael ei ddirwyn i ben

Pe byddai'r Sefydliad yn cael ei ddirwyn i ben, ni fyddai gan aelodau'r Sefydliad unrhyw atebolwydd i gyfrannu at ei asedion nac unrhyw atebolwydd personol o ran ei ddyledion a'i rwymedigaethau.

9. Aelodaeth o'r Sefydliad

(1) Bydd y personau sy'n aelodau o Gynhadledd yr Esgobaeth, yn amodol ar is-gymal (5), yn aelodau o'r Sefydliad yn rhinwedd eu haelodaeth o Gynhadledd yr Esgobaeth.

(2) Ni fydd unrhyw berson arall yn cael bod yn aelod.

(3) Trosglwyddo aelodaeth

Ni ellir trosglwyddo aelodaeth o'r Sefydliad i unrhyw un arall.

(4) Dyletswydd aelodau

Mae'n gan bob aelod o'r Sefydliad ddyletswydd i ymarfer eu hawliau fel aelod o'r Sefydliad mewn ffordd y maen nhw'n penderfynu mewn ewyllys da a fyddai'n debygol o hyrwyddo dibenion y Sefydliad.

(5) **Terfynu aelodaeth**

- (a) Daw aelodaeth o'r Sefydliad i ben os:
- (i) bydd yr aelod yn marw;,, neu
 - (ii) bod yr aelod yn anfon rhybudd o ymddiswyddiad at ymddiriedolwyr yr elusen (cyn belled â bod 30 aelod yn dal ar ôl); neu
 - (iv) fod ymddiriedolwyr yr elusen yn penderfynu ei bod er budd pennaf y Sefydliad fod aelodaeth yr aelod o dan sylw yn cael ei ddiddymu ac yn cadarnhau penderfyniad o hynny.
- (b) Cyn bod ymddiriedolwyr yr elusen yn cymryd unrhyw benderfyniad i ddiddymu aelodaeth rhywun o'r Sefydliad, mae'n rhaid:
- (i) rhoi gwybod i'r aelod y rhesymau pam fod yr aelodaeth yn cael ei diddymu;
 - (ii) rhoi o leiaf 21 diwrnod clir o rybudd i'r aelod y gall gyflwyno sylwadau i ymddiriedolwyr yr elusen yn egluro pam na ddylai ei aelodaeth ef neu hi gael ei ddiddymu;
 - (iii) mewn cyfarfod wedi'i gynnnull yn briodol o ymddiriedolwyr yr elusen, ystyried a ddylid ai peidio diddymu aelodaeth yr aelod;
 - (iv) ystyried yn y cyfarfod hwnnw unrhyw sylwadau gan yr aelod yn erbyn diddymu'r aelodaeth; a
 - (v) chaniatáu i'r aelod neu gynrychiolydd gyflwyno sylwadau'n bersonol yn y cyfarfod hwnnw os yw'r aelod yn dewis hynny.

10. Penderfyniadau'r aelodau

(1) **Darpariaethau cyffredinol**

Heblaw am y penderfyniadau y mae'n rhaid eu cymryd mewn ffordd benodol fel y dangosir yn is-gymal (4) o'r cymal hwn, gall aelodau'r Sefydliad gymryd penderfyniadau un ai trwy bleidlais mewn cyfarfod cyffredinol fel y darperir yn is-gymal (2) o'r cymal hwn neu trwy gynnig ysgrifenedig fel y darperir yn is-gymal (3) o'r cymal hwn,

(2) **Cymryd penderfyniadau arferol trwy bleidlais**

Yn amodol ar is-gymal (4) o'r cymal hwn, gall aelodau'r Sefydliad gymryd unrhyw benderfyniad trwy gyflwyno cynnig mewn cyfarfod cyffredinol. Gellir derbyn cynnig o'r fath trwy fwyafrif syml o bleidleisiau yn y cyfarfod (gan gynnwys pleidleisiau post neu bleidleisiau e-bost).

- (3) **Cymryd penderfyniadau arferol trwy gynigion ysgrifenedig heb gyfarfod cyffredinol**
- (a) Yn amodol ar is-gymal (4) o'r cymal hwn, bydd cynnig ysgrifenedig y cytunir arno gan fwyafri syml o bob aelod a fyddai â hawl pleidleisio pe byddai'n cael ei gynnig mewn cyfarfod cyffredinol yn effeithiol, cyn belled â:
- (i) bod copi o'r cynnig arfaethedig wedi'i anfon at bob aelod sy'n gymwys i bleidleisio; a
- (ii) bod mwyafri syml o'r aelodau wedi dangos eu bod yn cytuno â'r cynnig mewn dogfen neu ddogfennau sy'n cael eu derbyn yn y brif swyddfa o fewn cyfnod o 28 diwrnod yn cychwyn ar y dyddiad cylchredeg. Mae'n rhaid i'r ddogfen yn dangos cytundeb aelod gael ei diliysu gan lofnod yr aelod hwnnw neu honno, gan ddatganiad o'i hunaniaeth i ganlyn y ddogfen neu mewn unrhyw ffordd arall y mae'r Sefydliad wedi'i bennu.
- (b) Gall y cynnig ysgrifenedig gynnwys sawl copi y mae un neu fwy o'r aelodau wedi dangos eu cytundeb iddo.
- (c) Dim ond aelodau sy'n aelod o'r Sefydliad ar y dyddiad pan gylchredwyd y cynnig gyntaf yn unol â pharagraff (a) uchod fydd yn gymwys i bleidleisio.
- (d) Gall dim llai na 25% o aelodau'r Sefydliad ofyn i ymddiriedolwyr yr elusen gyflwyno cynnig i'r aelodau benderfynu yn ei gylch.
- (e) Mae'n rhaid i ymddiriedolwyr yr elusen, o fewn 21 diwrnod o dderbyn cais o'r fath, gydymffurfio â'r cais os:
- (i) Nad yw'r cynnig yn wamal nac yn flinderus ac nad yw'n golygu cyhoeddi deunydd difriol;
- (ii) Yw'r cynnig yn cael ei fynegi'n ddigon clir i allu gweithredu arno os bydd yn cael ei gytuno gan yr aelodau; a
- (iii) Gellir gweithredu'r cynnig yn gyfreithlon os bydd yn cael ei gytuno.
- (f) Gallai is-gymalau (a) i (c) o'r cymal hwn fod yn berthnasol i gynnig a gyflwynir ar gais yr aelodau.
- (4) **Penderfyniadau sy'n rhaid eu cymryd mewn ffordd benodol**
- (a) Mae'n rhaid i unrhyw benderfyniad i ddiswyddo ymddiriedolwr gael ei gymryd yn unol â chymal 15(2).
- (b) Mae'n rhaid i unrhyw benderfyniad i newid y cyfansoddiad hwn gael ei gymryd yn unol â chymal 28 o'r cyfansoddiad hwn (Newid y Cyfansoddiad).
- (c) Mae'n rhaid i unrhyw benderfyniad i ddirwyn y Sefydliad i ben neu i'w ddiddymu gael ei gymryd yn unol â chymal 29 o'r cyfansoddiad hwn (Dirwyn i ben yn wirfoddol neu ddiddymu). Mae'n rhaid cymryd unrhyw benderfyniad i uno neu drosglwyddo'r Sefydliad i un neu fwy o Sefydliadau eraill gael ei gymryd un unol â darpariaethau'r Ddeddf Elusennau 2011.

11. Cyfarfod cyffredinol o aelodau

(1) Mathau o gyfarfodydd cyffredinol

- (a) Mae'n rhaid cynnal cyfarfod cyffredinol blynnyddol o aelodau'r Sefydliad. Mae'n rhaid cynnal y cyfarfod blynnyddol cyntaf o fewn 18 mis o gofrestru'r Sefydliad ac mae'n rhaid cynnal cyfarfodydd blynnyddol dilynol ar gyfnodau o ddim hirach na 15 mis. Mae'n rhaid i'r cyfarfodydd cyffredinol blynnyddol dderbyn datganiad o gyfrifon (wedi'u harchwilio'n briodol yn ôl y gofyn), adroddiad blynnyddol yr ymddiriedolwyr a hefyd ethol ymddiriedolwyr yn unol â chymal 13.
- (b) Gellir cynnal cyfarfodydd cyffredinol eraill o aelodau'r Sefydliad r unrhyw adeg.
- (c) Gellir cynnal cyfarfodydd cyffredinol yn gorfforol, neu, os nad yw hynny naill ai'n bosibl neu, os ym marn yr ymddiriedolwyr, y gellir dod â mwy aelodau ynghyd drwy ddulliau electronig addas lle mae pob un sy'n cymryd rhan yn gallu cyfathrebu gyda phawb arall.
- (c) Mae'n rhaid cynnal pob cyfarfod cyffredinol un unol â'r darpariaethau canlynol.

(2) Galw cyfarfodydd cyffredinol

- (a) Mae'n rhaid i ymddiriedolwyr yr elusen:
- (i) alw cyfarfod cyffredinol blynnyddol o aelodau'r Sefydliad yn unol ag is-gymal (1) o'r cymal hwn a'i nodi yn y rhybudd ar gyfer y cyfarfod ei fod yn gyfarfod cyffredinol blynnyddol; a
 - (ii) gall yr ymddiriedolwyr alw unrhyw gyfarfod cyffredinol arall o'r aelodau unrhyw adeg.
- (b) Mae'n rhaid i ymddiriedolwyr yr elusen, o fewn 21 diwrnod, alw cyfarfod cyffredinol o aelodau'r Sefydliad; os:
- (i) yw'r ymddiriedolwyr yn derbyn cais i'w gynnwl gan o leiaf 10% o aelodau'r Sefydliad; a
 - (ii) bod y cais yn datgan natur gyffredinol y busnes i'w drafod yn y cyfarfod a'i fod wedi'i ddilysu gan yr aelod(au) sy'n cyflwyno'r cais.
- (c) Os, ar adeg cyflwyno cais o'r fath, na chynhaliwyd cyfarfod cyffredinol o aelodau'r Sefydliad ers mwy na 12 mis, yna bydd is-gymal (b)(i) o'r cymal hwn yn dod i rym fel pe byddai 5% yn cymryd lle 10%.
- (d) Gall unrhyw gais o'r fath gynnwys manylion cynnig y gellir ei gyflwyno'n briodol, ac y bwriedir ei gyflwyno, yn y cyfarfod.
- (e) Ni ellir cyflwyno cynnig oni bai ei fod yn gyfreithlon ac nad yw'n ddifriol, yn wamal nac yn flinderus.
- (f) Mae'n rhaid cynnal cyfarfod cyffredinol sy'n cael ei alw gan ymddiriedolwyr yr elusen ar gais aelodau o'r Sefydliad o fewn 28 diwrnod o'r dyddiad y cafodd ei alw.
- (g) Os na fydd ymddiriedolwyr yr elusen yn cydymffurfio â'r dyletswydd hwn i alw cyfarfod cyffredinol ar gais ei aelodau, yna gall yr aelodau a ofynnodd am gyfarfod alw cyfarfod cyffredinol eu hunain.
- (h) Mae'n rhaid cynnal cyfarfod cyffredinol sydd wedi'i alw fel hyn ddim hwyrach na thri mis ar ôl y dyddiad pan ofynnodd yr aelodau gyntaf am y cyfarfod.

(i) Mae'n rhaid i'r Sefydliad ad-dalu unrhyw dreuliau rhesymol yr aelodau a alwodd y cyfarfod cyffredinol oherwydd methiant ymddiriedolwyr yr elusen i alw'r cyfarfod yn briodol, ond bydd hawl gan y Sefydliad i gael indemniad gan ymddiriedolwyr yr elusen a oedd yn gyfrifol am y methiant hwnnw.

(3) Rybudd o gyfarfodydd cyffredinol

- (a) Mae'n rhaid i ymddiriedolwyr yr elusen, neu, fel arall, yr aelodau perthnasol o'r Sefydliad, roi o leiaf 14 diwrnod clir o rybudd o unrhyw gyfarfod cyffredinol i bob un o'r aelodau ac i unrhyw ymddiriedolwr elusennol o'r Sefydliad nad yw'n aelod.
- (b) Os yw dim llai na 90% o holl aelodau'r Sefydliad yn cytuno, gellir cyflwyno a derbyn unrhyw gynnig yn y cyfarfod er, efallai, na fydd gofynion is-gymal (3)(a) o'r cymal hwn wedi'u cyfarfod. Nid yw'r is-gymal hwn yn berthnasol os yw cymal arall o'r cyfansoddiad hwn, Deddf Elusennau 2011 neu'r Rheoliadau Cyffredinol, yn gofyn yn bendant am gyfnod penodol o rybudd.
- (c) Mae'n rhaid i rybudd ar gyfer unrhyw gyfarfod cyffredinol:
- (i) ddatgan amser a dyddiad y cyfarfod;
 - (ii) ddangos y cyfeiriad lle mae'r cyfarfod i gael ei gynnal;
 - (iii) gynnwys manylion unrhyw gynnig sydd i'w gyflwyno i'r cyfarfod a natur cyffredinol unrhyw fusnes arall a fydd yn cael ei drafod yn y cyfarfod.
 - (iv) Os oes cynnig i newid cyfansoddiad y Sefydliad i'w ystyried yn y cyfarfod, dylid cynnwys testun y newid arfaethedig.
 - (v) gynnwys, gyda'r rhybudd ar gyfer y cyfarfod blynnyddol cyffredinol, datganiad blynnyddol o'r cyfrifon, adroddiad blynnyddol yr ymddiriedolwyr, manylion pobl sy'n sefyll i gael eu hethol neu i'w hail ethol fel ymddiriedolwyr, neu, os caniateir o dan gymal 22 (Defnyddio cyfathrebu electronig), fanylion o ble y gellir gweld yr wybodaeth ar wefan y Sefydliad.
- (d) Bydd prawf bod amlin yn cynnwys rhybudd wedi'i chyfeirio, talu amdani a'i phostio, neu fod ffurf electronig o rybudd wedi'i gyfeirio'n gywir a'i anfon, yn brawf pendant fod y rhybudd wedi'i gyflwyno. Rhagdybir bod rhybudd wedi'i gyflwyno 48 awr ar ôl ei bostio neu ei yrru.
- (e) Ni fydd trafodion cyfarfod yn cael eu anndilysu oherwydd nad yw aelod oedd â hawl i dderbyn rhybudd o'r cyfarfod wedi'i dderbyn oherwydd camgymeriad damweiniol gan y Sefydliad.

(4) Cadeirio cyfarfodydd cyffredinol

Bydd Llywydd Cynhadledd Esgobaethol esgobaeth Bangor, os bydd yn bresennol yn y cyfarfod cyffredinol a'i fod yn fodlon gweithredu, yn llywyddu fel cadeirydd y cyfarfod. Yn amodol ar hynny, bydd aelodau o'r Sefydliad sy'n bresennol mewn cyfarfod cyffredinol yn dewis cadeirydd i lywyddu'r cyfarfod.

(5) **Cworpwm mewn cyfarfodydd cyffredinol**

- (a) Ni fydd busnes yn cael ei drafod mewn unrhyw gyfarfod cyffredinol o aelodau'r Sefydliad oni bai bod cworpwm yn bresennol ar ddechrau'r cyfarfod.
- (b) Yn amodol ar y darpariaethau canlynol, y cworpwm ar gyfer cyfarfodydd cyffredinol fydd y mwyaf o 25% neu 15 o aelodau.
- (c) Os yw'r cyfarfod wedi'i alw gan neu ar gais yr aelodau ac nad oes cworpwm yn bresennol o fewn 15 munud o amser cychwyn y cyfarfod a nodwyd yn y rhybudd o'r cyfarfod, bydd y cyfarfod yn dod i ben.
- (d) Os yw'r cyfarfod wedi'i alw mewn unrhyw ffordd arall ac os nad oes cworpwm yn bresennol o fewn 15 munud o amser cychwyn y cyfarfod a nodwyd yn y rhybudd o'r cyfarfod, mae'n rhaid i'r cadeirydd ohirio'r cyfarfod. Bydd yn rhaid i ddyddiad, amser a lleoliad ail gynnnull y cyfarfod un ai gael ei gyhoeddi gan y cadeirydd neu gael ei hysbysu i aelodau'r Sefydliad o leiaf saith ddiwrnod clir cyn y dyddiad pan fydd yn ail gynnnull. }
- (e) Os na fydd cworpwm yn bresennol o fewn 15 munud o gychwyn y cyfarfod sydd wedi'i ail gynnnull, bydd yr aelod neu'r aelodau sy'n bresennol yn y cyfarfod yn ffurfi cworpwm.
- (f) Os, ar unrhyw adeg yn ystod y cyfarfod, nad oes cworpwm yn bresennol, gall y cyfarfod drafod materion a chyflwyno argymhellion i'r ymddiriedolwyr ond nid cymryd penderfyniadau. Os bydd penderfyniadau eu hangen y mae'n rhaid eu cymryd gan gyfarfod o aelodau, mae'n rhaid gohirio'r cyfarfod.

(6) **Pleidleisio mewn cyfarfodydd cyffredinol**

- (a) Bydd unrhyw benderfyniad, heblaw'r rhai sy'n dod o dan gymal 10(4) (Penderfyniadau y mae'n rhaid eu cymryd mewn ffordd benodol), yn cael eu cymryd drwy fwyafrif syml o'r pleidleisiau sy'n cael eu bwrw yn y cyfarfod. Mae gan bob aelod un bleidlais.
- (b) Bydd cynnig y bydd cyfarfod yn pleidleisio arno yn cael ei benderfynu drwy ddangos dwylo, onibai (cyn, neu wrth gyhoeddi canlyniad y dangos dwylo) fod cais priodol am bleidlais bapur yn cael ei gyflwyno. Gall y cadeirydd, neu o leiaf 10% o'r aelodau sy'n bresennol yn bersonol yn y cyfarfod, fynnu pleidlais bapur.
- (c) Os ceir cais am bleidlais bapur pan mae person yn cael ei ethol i gadeirio cyfarfod neu os ceir cais i ohirio cyfarfod, mae'n rhaid cynnal y bleidlais bapur ar unwaith. Mae'n rhaid cynnal pleidlais bapur ar unrhyw fater arall, a bydd sut y bydd canlyniad y bleidlais yn cael ei chyhoeddi yn cael ei benderfynu gan gadeirydd y cyfarfod, cyn belled â bod yn rhaid cynnal y bleidlais a chyhoeddi'r canlyniad o fewn 30 diwrnod o'r cais am gynnal pleidlais bapur.
- (d) Gellir cynnal pleidlais bapur:
 - (i) yn y cyfarfod lle gofynnwyd amdani; neu
 - (ii) ar adeg neu mewn lle arall i'w bennu gan y cadeirydd; neu
 - (iii) trwy'r post neu drwy gyfathrebu'n electronig.
- (e) Os bydd y bleidlais yn gyfartal, un ai trwy ddangos dwylo neu trwy bleidlais bapur, bydd gan gadeirydd y cyfarfod ail bleidlais, neu bleidlais fwrrw.
- (f) Bydd yn rhaid codi unrhyw wrthwynebiad i gymhwyster unrhyw bleidleisydd yn y cyfarfod lle mae'r bleidlais yn cael ei chynnal a bydd penderfyniad cadeirydd y cyfarfod yn derfynol.

(7- 9) heb eu defnyddio

(10) **Gohirio cyfarfodydd**

Gall y cadeirydd, gyda chaniatâd y cyfarfod lle mae cworwm yn bresennol (a bydd yn gwneud hynny os bydd yn cael ei gyfarwyddo gan y cyfarfod) ohirio'r cyfarfod tan rywbryd arall a /neu rywle arall. Ni fydd unrhyw fusnes yn cael ei drafod mewn cyfarfod wedi'i ohirio ar wahân i fusnes y gellid bod wedi'i drafod yn y cyfarfod gwreiddiol.

12. Ymddiriedolwyr yr elusen

(1) **Gwaith a dyletswyddau ymddiriedolwyr yr elusen**

Bydd ymddiriedolwyr yr elusen yn rheoli materion y Sefydliad, ac, at y dibenion hynny, yn ymarfer holl hawliau'r Sefydliad. Dyletswydd pob ymddiriedolwr yr elusen yw:

- (a) ymarfer eu hawliau a gwneud eu gwaith fel ymddiriedolwyr y Sefydliad mewn ffordd y maen nhw'n penderfynu mewn ewyllys da a fyddai'n debygol o hyrwyddo dibenion y Sefydliad; a
- (b) ymarfer, yn eu gwaith, y fath ofal a sgiliau ag sy'n rhesymol o dan yr amgylchiadau o gofio'n benodol am:
 - (i) unrhyw wybodaeth neu brofiad penodol sydd ganddyn nhw, neu y maen nhw'n honni sydd ganddyn nhw; ac
 - (ii) os ydyn nhw'n gweithredu fel ymddiriedolwyr y Sefydliad yn eu gwaith neu eu proffesiwn, unrhyw wybodaeth neu brofiad arbennig y mae'n rhesymol ddisgwyl fyddai gan berson yn gwneud y math hwnnw o waith neu broffesiwn.

(2) **Cymhwyster i fod yn ymddiriedolwr**

- (a) Mae'n rhaid i bob ymddiriedolwr elusen fod yn berson naturiol.
- (b) Ni ellir penodi unrhyw un yn ymddiriedolwr elusen:
 - os yw o dan 16 oed, neu
 - Os byddai'n awtomatig yn gadael y swydd o dan ddarpariaethau cymal 15(1)(f).
- (c) Nid oes gan unrhyw un hawl i weithredu fel ymddiriedolwr elusen, wrth gael ei benodi neu gael ei ail benodi, nes eu bod wedi cydnabod, ym mha ffordd bynnag y bydd yr elusen y penderfynu y dylid gwneud hynny, ei fod neu ei bod wedi derbyn swydd o ymddiriedolwr yr elusen.

(3) **Nifer ymddiriedolwyr yr elusen**

- (a) Dylai fod yna:
 - 11 o ymddiriedolwyr ex officio
 - 1 ymddiriedolwr wedi'i enwebu
 - 4 o ymddiriedolwyr wedi'u cyfethol.
- (b) Mae'n rhaid i'r elusen gael o leiaf bedwar o ymddiriedolwyr. Os bydd y nifer yn disgyn yn is na'r isafswm hwn, dim ond i alw cyfarfod o ymddiriedolwyr yr elusen, neu i benodi ymddiriedolwr newydd i'r elusen, y gall yr ymddiriedolwr neu ymddiriedolwyr sy'n dal ar ôl, weithredu.
- (c) Mae'r nifer fwyaf o ymddiriedolwr yr elusen y gallir eu penodi'n cael ei ddangos yn is-gymal (a) o'r cymal hwn. Ni ellir penodi mwy o ymddiriedolwyr nag sydd yn y darpariaethau hyn.

(4) **Ymddiriedolwyr cyntaf yr elusen:**

Ymddiriedolwyr cyntaf elusen y Sefydliad yw -

.....
.....
.....
.....
.....

13. **Penodi ymddiriedolwyr i'r elusen**

(1) **Ymddiriedolwyr ex officio yr elusen**

Esgob Bangor

Deon Cadeirlan Bangor

Y tri Archddiacon yn Esgobaeth Bangor

Y tri Deon Ardal yn Esgobaeth Bangor

Y tri is-gadeirydd lleyg synod deoniaeth yn Esgobaeth Bangor

Bydd pob un ar hyn o bryd ("deiliaid y swyddi"), oherwydd eu bod yn dal y swyddi hynny ("ex officio"), yn ymddiriedolwr awtomatig yr elusen.

(2) Pe byddai yna fwy na thri Archddiacon neu o Ddeoniaid Ardal neu o is-gadeiryddion lleyg synod deoniaeth, bydd yr Archddiaconiaid, Deoniaid Ardal a'r is-gadeiryddion hynny yn dewis tri o'u plith i dderbyn y swyddi ex officio.

(3) Os nad yw'n fodlon gweithredu fel ymddiriedolwr elusen, gall deilydd swydd:

- (a) cyn derbyn penodiad fel ymddiriedolwr yr elusen, gyflwyno rhybudd ysgrifenedig i'r ymddiriedolwr yn egluro nad yw'n fodlon derbyn y penodiad; neu
- (b) ar ôl derbyn penodiad fel ymddiriedolwr yr elusen, ymddiswyddo o dan y darpariaethau sydd yng nghymal 15 (Ymddeol a diswyddo ymddiriedolwyr elusen).

Bydd swydd ymddiriedolwr ex officio elusen yn dal yn wag ar ôl hynny nes bod deilydd y swydd yn peidio â dal y swydd.

(4) **Ymddiriedolwr Elusen a Enwebir**

- (a) gall yr aelodau'n cyfarfod fel y Gynhadledd Esgobaethol ("y corff penodi") benodi un ymddiriedolwr elusen. Ni all yr ymddiriedolwr a benodir fod yn glerigyd.
- (b) Mae'n rhaid i unrhyw benodiad gael ei wneud mewn cyfarfod sy'n cael ei gynnwl yn ôl ymarfer cyffredin y corff penodi.
- (c) Mae'n rhaid i bob penodiad fod am dymor o 5 mlynedd.
- (d) Bydd y penodiad yn effeithiol o'r diweddaraf o:
 - (i) y dyddiad pan ddaeth y swydd yn wag; neu
 - (ii) y dyddiad pan hysbysir y Sefydliad o'r penodiad.
- (e) Nid oes raid i'r person a benodir fod yn aelod o'r corff sy'n penodi ond mae'n rhaid iddo neu iddi fod yn gymwys i fod yn aelod o'r corff sy'n penodi.
- (f) Mae gan ymddiriedolwr sy'n cael ei benodi gan y corff penodi yr un dyletswydd o dan Gymal 12(1) ag sydd gan unrhyw ymddiriedolwr arall yr elusen i weithredu yn y ffordd y bydd yn penderfynu mewn ewyllys da a fyddai fwyaf tebyg o hyrwyddo dibenion y Sefydliad.

(5) **Ymddiriedolwyr Cyfetholedig yr Elusen**

- (a) Bydd yr ymddiriedolwyr yn penodi 4 ymddiriedolwr wedi'u cyfethol.
- (b) Mae'n rhaid i unrhyw benodiad gael ei wneud mewn cyfarfod o'r ymddiriedolwyr.
- (c) Mae'n rhaid i bob penodiad fod am dymor o 5 mlynedd.
- (d) Mae gan ymddiriedolwr sy'n cael ei benodi gan y corff penodi yr un dyletswydd o dan Gymal 12(1) ag sydd gan ymddiriedolwyr eraill yr elusen i weithredu yn y ffordd y bydd yn penderfynu mewn ewyllys da a fyddai fwyaf tebyg o hyrwyddo dibenion y Sefydliad.

14. Gwybodaeth i ymddiriedolwyr newydd yr elusen

Bydd ymddiriedolwyr yr elusen yn rhoi ar gael i bob ymddiriedolwr newydd o'r elusen, ar neu cyn eu penodiad:

- (a) gopi o'r cyfansoddiad hwn ac unrhyw newidiadau iddo; a
- (b) copi o adroddiad blynyddol a datganiad o gyfrifon diweddaraf y Sefydliad.

15. Ymddeol a diswyddo ymddiriedolwyr yr elusen

(1) Ni fydd ymddiriedolwr yr elusen bellach mewn swydd os bydd yn:

- (a) ymddeol trwy hysbysu'r Sefydliad yn ysgrifenedig (oni bai na fydd digon o ymddiriedolwyr yr elusen yn dal mewn swydd ar ôl yr ymddeoliad i ffurfio cworm ar gyfer cyfarfodydd);
- (b) absennol heb ganiatâd ymddiriedolwyr yr elusen o'u holl gyfarfodydd a gynhaliwyd o fewn cyfnod o chwe mis a bod yr ymddiriedolwyr yn penderfynu bod y swydd wedi dod yn wag;
- (c) marw;
- (d) ym marn ysgrifenedig, a roddir i'r cwmni, gan ymarferydd meddygol trwyddedig sy'n trin y person, fod y person hwnnw wedi dod yn gorfforol neu'n feddyliol analluog i weithredu fel ymddiriedolwr ac y gallai barhau felly am fwy na thri mis.
- (e) nad yw'n ymddiriedolwr ex officio a'i fod yn cael ei symud gan aelodau'r Sefydliad yn unol ag is-gymal (2) o'r cymal hwn; neu
- (f) ei fod wedi'i wahardd rhag gweithredu fel ymddiriedolwr elusen o dan adran 178-180 o Ddeddf Elusennau 2011 (neu unrhyw ailddeddfiad neu addasiad o'r ddarpariaeth honno).

(2) Bydd ymddiriedolwr yr elusen yn cael ei ddiswyddo os bydd cynnig i ddiswyddo'r ymddiriedolwr hwnnw yn cael ei gynnig mewn cyfarfod cyffredinol o'r aelodau a alwyd at y diben hwnnw, a'i fod yn cael ei gynnal yn unol â chymal 11, a bod y cynnig yn cael ei dderbyn gan 75% o'r pleidleisiau a gafodd eu bwrw yn y cyfarfod hwnnw.

(3) Ni ddaw cynnig i ddiswyddo ymddiriedolwr elusen yn unol â'r cymal hwn i rym oni bai bod yr unigolyn o dan sylw wedi cael o leiaf 14 niwrnod clir o rybudd yn ysgrifenedig y bydd y cynnig yn cael ei gyflwyno, gan nodi'r amgylchiadau yr honnir sy'n cyflawnhau diswyddo, a'i fod wedi cael cyfle rhesymol o gyflwyno sylwadau llafar neu ysgrifenedig i aelodau'r Sefydliad.

16. Ail benodi ymddiriedolwyr i'r elusen

Bydd unrhyw berson sy'n ymddeol fel ymddiriedolwr elusen ar ddiwedd eu tymor mewn swydd, neu trwy gyflwyno rhybudd i'r Sefydliad, yn gymwys i gael ei ailbenodi. Ni fydd ymddiriedolwr elusen sydd wedi bod mewn swydd am dri thymor yn olynol yn cael ei ailbenodi ar gyfer pedwerydd tymor penodol ond gellir ei ailbenodi ar ôl ysbaid o dair blynedd o leiaf.

17. Cymryd penderfyniadau gan ymddiriedolwyr yr elusen

Gellir cymryd unrhyw benderfyniad nail ari:

- (a) mewn cyfarfod o ymddiriedolwyr yr elusen; neu
- (b) drwy benderfyniad ysgrifenedig neu ar ffurf electronig a gytunwyd gan fwyafri ymddiriedolwyr yr elusen, a allai gynnwys dogfen syml neu sawl dogfen yn cynnwys testun y penderfyniad ar ffurf y mae mwyafri holl ymddiriedolwyr yr elusen wedi cytuno arno. Bydd penderfyniad o'r fath yn effeithiol, cyn belled â
 - (i) bod copi o'r penderfyniad arfaethedig wedi'i anfon, yr un pryd neu mor ymarferol agos at hynny, at bob ymddiriedolwr yr elusen; a
 - (ii) bod mwyafri o ymddiriedolwyr yr elusen wedi dangos eu bod yn cytuno â'r penderfyniad mewn dogfen neu ddogfennau sydd wedi'u dilysu gan eu llofnodion, gan ddatganiad o'u hunaniaeth sydd i ganlyn y ddogfen neu'r ddogfennau, neu mewn unrhyw ffordd arall y penderfynodd ymddiriedolwyr yr elusen yn ei chylch, ac wedi'u danfon at y Sefydliad yn ei brif swyddfa neu i unrhyw le arall yn ôl penderfyniad yr ymddiriedolwyr o fewn 14 diwrnod o ddyddiad y cylchredeg.

18. Dirprwo gan ymddiriedolwyr elusen

- (1) Gall ymddiriedolwyr elusen ddirprwo unrhyw rai o'u hawliau neu eu gwaith i bwyllgor neu bwyllgorau ac, os gwneir hynny, mae'n rhaid iddyn nhw benderfynu ar delerau ac amodau'r dirprwo. Gall ymddiriedolwyr elusen newid y telerau a'r amodau hyn unrhyw bryd, neu ddiddymu'r dirprwyad.
- (2) Mae'r hawl hwn yn ychwanegol at yr hawl i ddirprwo sydd yn y Rheoliadau Cyffredinol ac at unrhyw hawl arall i ddirprwo sydd ar gael i ymddiriedolwyr yr elusen ond mae'n amodol ar y gofynion canlynol -
 - (ii) send any such notice or proposal in hard copy form to any member or charity trustee who has not consented to receive communications in electronic form.

23. Keeping of Registers

The CIO must comply with its obligations under the General Regulations in relation to the keeping of, and provision of access to, registers of its members and charity trustees.

24. Minutes

The charity trustees must keep minutes of all:

- (1) appointments of officers made by the charity trustees;
- (2) proceedings at general meetings of the CIO;
- (3) meetings of the charity trustees and committees of charity trustees including:
 - (i) the names of the trustees present at the meeting;
 - (ii) the decisions made at the meetings; and
 - (iii) where appropriate the reasons for the decisions;
- (4) decisions made by the charity trustees otherwise than in meetings.

- 25. Accounting records, accounts, annual reports and returns, register maintenance**
- (1) The charity trustees must comply with the requirements of the Charities Act 2011 with regard to the keeping of accounting records, to the preparation and scrutiny of statements of accounts, and to the preparation of annual reports and returns. The statements of accounts, reports and returns must be sent to the Charity Commission, regardless of the income of the CIO, within 10 months of the financial year end.
- (2) The charity trustees must comply with their obligation to inform the Commission within 28 days of any change in the particulars of the CIO entered on the Central Register of Charities.

26. Rules

The charity trustees may from time to time make such reasonable and proper rules or bye laws as they may deem necessary or expedient for the proper conduct and management of the CIO, but such rules or bye laws must not be inconsistent with any provision of this constitution. Copies of any such rules or bye laws currently in force must be made available to any member of the CIO on request.

27. Disputes

If a dispute arises between members of the CIO about the validity or propriety of anything done by the members under this constitution, and the dispute cannot be resolved by agreement, the parties to the dispute must first try in good faith to settle the dispute by mediation before resorting to litigation.

28. Amendment of constitution

As provided by clauses 224-227 of the Charities Act 2011:

- (1) This constitution can only be amended:
- (a) by resolution agreed in writing by all members of the CIO; or
 - (b) by a resolution passed by a 75% majority of votes cast at a general meeting of the members of the CIO.
- (2) Any alteration of clause 3 (Objects), clause 29 (Voluntary winding up or dissolution), this clause, or of any provision where the alteration would provide authorisation for any benefit to be obtained by charity trustees or members of the CIO or persons connected with them, requires the prior written consent of the Charity Commission.
- (3) No amendment that is inconsistent with the provisions of the Charities Act 2011 or the General Regulations shall be valid.
- (4) A copy of any resolution altering the constitution, together with a copy of the CIO's constitution as amended, must be sent to the Commission within 15 days from the date on which the resolution is passed. The amendment does not take effect until it has been recorded in the Register of Charities.

29. Voluntary winding up or dissolution

- (1) As provided by the Dissolution Regulations, the CIO may be dissolved by resolution of its members. Any decision by the members to wind up or dissolve the CIO can only be made:
- (a) at a general meeting of the members of the CIO called in accordance with clause 11 (Meetings of Members), of which not less than 14 days' notice has been given to those eligible to attend and vote:
 - (i) by a resolution passed by a 75% majority of those voting, or
 - (ii) by a resolution passed by decision taken without a vote and without any expression of dissent in response to the question put to the general meeting; or
 - (b) by a resolution agreed in writing by all members of the CIO.
- (2) Subject to the payment of all the CIO's debts:
- (a) Any resolution for the winding up of the CIO, or for the dissolution of the CIO without winding up, may contain a provision directing how any remaining assets of the CIO shall be applied.
 - (b) If the resolution does not contain such a provision, the charity trustees must decide how any remaining assets of the CIO shall be applied.
 - (c) In either case the remaining assets must be applied for charitable purposes the same as or similar to those of the CIO.
- (3) The CIO must observe the requirements of the Dissolution Regulations in applying to the Commission for the CIO to be removed from the Register of Charities, and in particular:
- (a) the charity trustees must send with their application to the Commission:
 - (i) a copy of the resolution passed by the members of the CIO;
 - (ii) a declaration by the charity trustees that any debts and other liabilities of the CIO have been settled or otherwise provided for in full; and
 - (iii) a statement by the charity trustees setting out the way in which any property of the CIO has been or is to be applied prior to its dissolution in accordance with this constitution;
 - (b) the charity trustees must ensure that a copy of the application is sent within seven days to every member and employee of the CIO, and to any charity trustee of the CIO who was not privy to the application.
- (4) If the CIO is to be wound up or dissolved in any other circumstances, the provisions of the Dissolution Regulations must be followed.

30. Interpretation

In this constitution:

“charity trustee” means a charity trustee of the CIO.

“Communications Provisions” means the Communications Provisions in [Part 9, Chapter 4] of the General Regulations.

“connected person” means:

- (a) a child, parent, grandchild, grandparent, brother or sister of the charity trustee;
- (b) the spouse or civil partner of the charity trustee or of any person falling within sub-clause (a) above;
- (c) a person carrying on business in partnership with the charity trustee or with any person falling within sub-clause (a) or (b) above;
- (d) an institution which is controlled –
 - (i) by the charity trustee or any connected person falling within sub-clause (a), (b), or (c) above; or
 - (ii) by two or more persons falling within sub-clause (d)(i), when taken together
- (e) a body corporate in which –
 - (i) the charity trustee or any connected person falling within sub-clauses (a) to (c) has a substantial interest; or
 - (ii) two or more persons falling within sub-clause (e)(i) who, when taken together, have a substantial interest.

Section 118 of the Charities Act 2011 apply for the purposes of interpreting the terms used in this constitution.

“Diocesan Conference” means the Diocesan Conference of the diocese of Bangor, as constituted from time to time.

“Dissolution Regulations” means the Charitable Incorporated Organisations (Insolvency and Dissolution) Regulations 2012.

“General Regulations” means the Charitable Incorporated Organisations (General) Regulations 2012.

“poll” means a counted vote or ballot, usually (but not necessarily) in writing.

CYFANSODDIAD
Gwaddol Deiniol Sant (SEC)
Saint Deiniol Foundation (CIO)

SEFYDLIAD CORFFOREDIG ELUSENNOL (MODEL CYSWLLT)
GYDA RHIF COFRESTRU SEFYDLIAD CORFFOREDIG ELUSENNOL: []

LEE BOLTON MONIER-WILLIAMS

1 The Sanctuary

Westminster

Llundain

SW1P 3JT

Ffôn 020 7222 5381

Cyf: JZG/301901869

**Cyfansoddiad Sefydliad Corfforedig Elusennol gydag aelodau â phleidlais heblaw ei
ymddiriedolwyr elusennol**
(Cyfansoddiad Model ‘Cyswllt’)

Dyddiad y cyfansoddiad (newidiwyd ddiwethaf):

.....
1. Enw

Enw'r Sefydliad Corfforedig Elusennol ("y Sefydliad") yw
Gwaddol Deiniol Sant (SEC) Saint Deiniol Foundation CIO

2. Lleoliad cenedlaethol y brif swyddfa

Mae'n rhaid i'r Sefydliad fod â phrif swyddfa yng Nghymru neu Loegr. Mae prif swyddfa'r Sefydliad yng Nghymru.

3. Amcan

Amcan y Sefydliad yw

Hyrwyddo gwaith a dibenion crefyddol ac elusennol yr Eglwys yng Nghymru yn Esgobaeth Bangor (yn ôl y cyfansoddwyd o bryd i'w gilydd) trwy unrhyw ddulliau elusennol gan gynnwys cadwraeth adeiladau eglwysig, darparu a chefnogi addysg (gan gynnwys ysgolion a hyrwyddo addoli a gweinidogaeth yn y Gymraeg).

4. Hawliau

Mae gan y Sefydliad hawl i wneud unrhyw beth i hyrwyddo ei amcan(ion) neu sy'n arwain neu a ddaw yn sgil gwneud hynny. Yn benodol, mae hawliau'r Sefydliad yn cynnwys hawl i:

- (1) fenthyg arian ac i roi arwystl ar y cyfan neu ran o'i eiddo fel sicrwydd ar gyfer ad-dalu'r arian a fenthycwyd. Mae'n rhaid i'r Sefydliad gydymffurfio, yn ôl y gofyn, gydag adrannau 124 ac 125 o Ddeddf Elusennau 2011 os yw'n dymuno morgeisio tir;
- (2) prynu, cymryd prydles neu gyfnewid, llogi neu, fel arall, gaffael a chynnal unrhyw eiddo a darparu cyfarpar ar gyfer ei ddefnyddio;
- (3) gwerthu, prydlesu neu, fel arall, waredu unrhyw ran o'r eiddo sy'n perthyn i'r Sefydliad. Wrth ymarfer yr hawl hwn, mae'n rhaid i'r Sefydliad gydymffurfio, yn ôl y gofyn, gydag Adrannau 117 ac 119-123 o Ddeddf Elusennau 2011(4) cyflogi a thalu'r staff sydd ei angen i chynnal gwaith y Sefydliad. Gall y Sefydliad gyflogi neu dalu i ymddiriedolwr yr elusen, ond ddim ond i gymaint graddau ag sy'n cael ei ganiatáu gan gymal 6 (Buddion a thaliadau i ymddiriedolwyr elusennau a phersonau cysylltiedig) a chyn belled â bod hynny'n cydymffurfio ag amodau'r cymalau hynny.
- (5) adneuo neu fuddsoddi arian, cyflogi rheolwr ariannol proffesiynol a threfnu i fuddsoddiadau neu eiddo arall y sefydliad gael ei ddal yn enw enwebai, yr un fath, ac yn amodol ar yr un amodau, ag y mae ymddiriedolwyr ymddiriedolaeth yn gallu gwneud o dan Ddeddf Ymddiriedolwyr 2000;
- (6) gweithredu fel ymddiriedolwr neu asiant i unrhyw elusen gan gynnwys unrhyw ardal weinidogaeth neu gyngor plwyf.

5. Defnyddio incwm ac eiddo

- (1) Dim ond ar gyfer hyrwyddo ei amcanion y dylid defnyddio incwm ac eiddo'r Sefydliad.
- (a) Mae gan ymddiriedolwr elusen yr hawl i gael ei ad-dalu o eiddo'r Sefydliad neu gellir talu allan o eiddo o'r fath dreuliau rhesymol a gododd yn briodol rhwng yr ymddiriedolwr a'r Sefydliad wrth weithredu ar ran y Sefydliad.
- (b) Gall ymddiriedolwr elusen elwa o yswiriant indemniad i ymddiriedolwyr a brynwyt ar draul y Sefydliad yn unol â, ac yn amodol ar yr amodau yn, adran 189 o Ddeddf Elusennau 2011.
- (2) Ni ellir talu dim o incwm nac eiddo'r Sefydliad, na throsglwyddo'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol drwy ddifidend, bonws neu, mewn unrhyw ffordd arall fel elw, i unrhyw aelod o'r Sefydliad. Nid yw hyn yn rhwystro unrhyw aelod nad yw'n ymddiriedolwr o'r elusen dderbyn:
- (a) budd o'r Sefydliad fel buddiolwr o'r Sefydliad;
- (b) tâl rhesymol neu briodol am unrhyw nwyddau neu wasanaethau a gyflenwir i'r Sefydliad.
- (3) Nid oes unrhyw beth yn y cymal hwn sy'n rhwystro ymddiriedolwr neu berson â chysylltiad â'r elusen rhag derbyn unrhyw fudd neu daliad sy'n cael ei awdurdodi gan Gymal 6.

6. Buddion a thaliadau i ymddiriedolwyr yr elusen a phersonau cysylltiedig

Darpariaethau cyffredinol

Nid oes gan ymddiriedolwr neu berson cysylltiedig hawl i:

- (a) brynu na derbyn unrhyw nwyddau neu wasanaethau gan y Sefydliad ar delerau mwy ffafriol nag sydd ar gael i'r cyhoedd.
- (b) werthu nwyddau, gwasanaethau neu unrhyw fuddiant mewn tir i'r Sefydliad;
- (c) cael ei gyflogi gan, neu dderbyn tâl am wasanaeth, gan y Sefydliad;
- (d) derbyn unrhyw fuddion ariannol eraill gan y Sefydliad;
- oni bai y caniateir y taliad neu'r budd gan is-gymal (2) o'r cymal hwn, neu ei fod yn cael ei awdurdodi gan lys neu y cafwyd caniatâd ysgrifenedig y Comisiwn Elusennau ("y Comisiwn") ymlaen llaw. Yn y cymal hwn, ystyr "budd ariannol" yw budd uniongyrchol neu anuniongyrchol, sydd un ai'n arian neu'n werth ariannol.

- (2) **Ystod a'r hawliau sy'n caniatáu buddion yr ymddiriedolwyr neu bersonau cysylltiedig**
- (a) Gall ymddiriedolwr yr elusen neu berson cysylltiedig dderbyn budd gan y Sefydiad fel buddiolwr y Sefydiad cyn belled nad yw mwyafrif yr ymddiriedolwyr yn elwa yn y fath fodd.
 - (b) Gall ymddiriedolwr yr elusen neu berson cysylltiedig fynd i gcontract i gyflenwi gwasanaethau, neu nwyddau sy'n cael eu cyflenwi mewn cysylltiad â darparu gwasanaethau, i'r Sefydiad lle mae hynny'n cael ei ganiatáu'n unol â, ac yn amodol ar yr amodau yn, adrannau 185 i 188 o Ddeddf Elusennau 2011.
 - (c) Yn amodol ar is-gymal (3) o'r cymal hwn, gall ymddiriedolwr elusen neu berson cysylltiedig ddarparu i'r Sefydiad nwyddau nad ydynt yn cael eu cyflenwi mewn cysylltiad â gwasanaethau y mae ymddiriedolwr yr elusen neu berson cysylltiedig yn eu darparu i'r Sefydiad.
 - (d) Gall ymddiriedolwr elusen neu berson cysylltiedig dderbyn llogau ar arian a fenthycwyd i'r Sefydiad ar raddfa resymol a phriodol ac na ddylai fod yn uwch na chyfradd Banc Lloegr (ac a elwir hefyd y gyfradd sylfaenol).
 - (e) Gall ymddiriedolwr elusen neu berson cysylltiedig dderbyn rhent am eiddo sy'n cael ei osod gan yr ymddiriedolwr, neu berson cysylltiedig, i'r Sefydiad. Mae'n rhaid i swm y rhent a thelerau eraill y brydles fod yn rhesymol ac yn briodol. Mae'n rhaid i ymddiriedolwr yr elusen sydd â diddordeb fynd allan o unrhyw gyfarfod lle mae'r cynnig neu rent neu delerau neu amodau eraill y brydles yn cael eu trafod.
 - (f) Bydd ymddiriedolwr yr elusen neu berson cysylltiedig yn gallu cymryd rhan mewn gweithgareddau masnachu a chodi arian arferol y Sefydiad ar yr un telerau â'r cyhoedd.
- (3) **Taliadau ar gyfer cyflenwi nwyddau'n unig - rheolaethau**
- Dim ond os bydd pob un o'r amodau canlynol yn cael eu bodloni y gall y Sefydiad a'i ymddiriedolwyr ddibynnau ar yr awdurdod sydd yn is-gymal (2)(c) o'r cymal hwn:
- (a) Fod y swm neu'r swm uchaf o daliad ar gyfer y nwyddau'n cael ei ddangos mewn cytundeb ysgrifenedig rhwng y Sefydiad ac ymddiriedolwr yr elusen neu berson cysylltiedig sy'n cyflenwi'r nwyddau ("y cyflenwr").
 - (b) Nad yw'r swm neu'r swm uchaf o daliad am y nwyddau'n fwy na'r hyn sy'n rhesymol o gofio am amgylchiadau cyflenwi'r nwyddau o dan sylw.
 - (c) Fod ymddiriedolwyr eraill yr elusen yn fodlon ei bod o fudd pennaf y Sefydiad gael contract gyda'r cyflenwr yn hytrach nag â rhywun nad yw'n ymddiriedolwr yr elusen neu'n berson cysylltiedig. Wrth benderfynu ar hyn, mae'n rhaid i ymddiriedolwyr yr elusen gydbwyo manteision dod i gytundeb trwy ymddiriedolwr yr elusen neu berson cysylltiedig yn erbyn anfanteision gwneud hynny.
 - (d) Nad yw'r cyflenwr yn bresennol yn y rhan o'r cyfarfod pan mae'r cynnig yn cael ei drafod i fynd i gcontract neu drefniant gyda nhw ar gyfer cyflenwi nwyddau i'r Sefydiad.
 - (e) Nad yw'r cyflenwr yn pleidleisio ar unrhyw ran o'r mater ac nad yw'n cael ei gyfrif wrth benderfynu a oes cworwm o ymddiriedolwyr yn bresennol yn y cyfarfod.
 - (f) Fod y rheswm dros y penderfyniad yn cael ei gofnodi gan ymddiriedolwyr yr elusen yn y llyfr cofnodion.
 - (g) Nad yw mwyafrif ymddiriedolwyr yr elusen sydd mewn swydd yr adeg hynny yn derbyn cydnabyddiaeth neu dal a awdurdodir gan gymal 6.

- (4) Yn is-gymalau (2) a (3) y cymal hwn:
- (a) Mae'r 'Sefydliad' yn cynnwys unrhyw gwmni y mae'r Sefydliad:
 - (i) yn dal mwy na 50% o'r cyfranddaliadau; neu
 - (ii) yn rheoli mwy na 50% o hawliau pleidleisio sydd ynghlwm â'r cyfranddaliadau hynny; neu
 - (iii) â hawl i benodi un neu fwy o gyfarwyddwyr ar fwrdd y cwmni;
 - (b) mae "person cysylltiedig" yn cynnwys unrhyw berson o fewn y diffiniad sydd yng nghymal 30 (Dehongliad);

7. Gwrthdrawiad buddiannau a gwrthdrawiad teyrngarwch

- (1) Mae'n rhaid i ymddiriedolwr elusen:
- (a) ddatgan natur ac ystod unrhyw fuddiant, uniongyrchol neu anuniongyrchol, y mae ganddo ef neu hi yn y trafodiad neu'r trefniant arfaethedig gyda'r Sefydliad neu mewn unrhyw drafodiad neu drefniant gyda'r Sefydliad nad yw wedi'i ddatgan o'r blaen; a
 - (b) neilltuo ei hunan o unrhyw drafodaethau ymddiriedolwyr yr elusen lle mae'n bosibl y byddai gwrthdaro buddiannau'n codi rhwng eu dyletswydd i weithredu'n unig er bydd y Sefydliad ac unrhyw fuddiant personol (gan gynnwys ond nid yn gyfyngedig i fuddiannau ariannol).
- (2) O ran trafodion rhwng y Sefydliad a Bwrdd Cyllid Esgobaeth Bangor, ni fydd unrhyw wrthdrawiad teyrngarwch yn codi yn unig oherwydd bod ymddiriedolwr hefyd yn ymddiriedolwr o Fwrdd Cyllid Esgobaeth Bangor.
- (3) Rhaid i unrhyw ymddiriedolwr yr elusen sy'n neilltuo ei hunan o unrhyw drafodaeth yn unol â'r cymal hwn beidio â phleidleisio na chael ei gyfrif fel rhan o'r cworwm mewn unrhyw benderfyniad gan ymddiriedolwyr yr elusen ynghylch y mater hwn.

8. Atebolwydd aelodau i gyfrannu at asedau'r Sefydliad pe byddai'n cael ei ddirwyn i ben

Pe byddai'r Sefydliad yn cael ei ddirwyn i ben, ni fyddai gan aelodau'r Sefydliad unrhyw atebolwydd i gyfrannu at ei asedion nac unrhyw atebolwydd personol o ran ei ddyledion a'i rwymedigaethau.

9. Aelodaeth o'r Sefydliad

(1) Bydd y personau sy'n aelodau o Gynhadledd yr Esgobaeth, yn amodol ar is-gymal (5), yn aelodau o'r Sefydliad yn rhinwedd eu haelodaeth o Gynhadledd yr Esgobaeth.

(2) Ni fydd unrhyw berson arall yn cael bod yn aelod.

Trosglwyddo aelodaeth

Ni ellir trosglwyddo aelodaeth o'r Sefydliad i unrhyw un arall.

Dyletswydd aelodau

Mae'n gan bob aelod o'r Sefydliad ddyletswydd i ymarfer eu hawliau fel aelod o'r Sefydliad mewn ffordd y maen nhw'n benderfynu mewn ewyllys da a fyddai'n debygol o hyrwyddo dibenion y Sefydliad.

Terfynu aelodaeth

(a) Daw aelodaeth o'r Sefydliad i ben os:

- (i) bydd yr aelod yn marw; neu
- (ii) bod yr aelod yn anfon rhybudd o ymddiswyddiad at ymddiriedolwyr yr elusen (cyn belled â bod 30 aelod yn dal ar ôl); neu
- (iv) bod ymddiriedolwyr yr elusen yn penderfynu ei bod er budd pennaf y Sefydliad fod aelodaeth yr aelod o dan sylw yn cael ei ddiddymu ac yn cadarnhau penderfyniad o hynny.

(b) Cyn bod ymddiriedolwyr yr elusen yn cymryd unrhyw benderfyniad i ddiddymu aelodaeth rhywun o'r Sefydliad, mae'n rhaid:

- (i) rhoi gwybod i'r aelod y rhesymau pam fod yr aelodaeth yn cael ei diddymu;
- (ii) rhoi o leiaf 21 diwrnod clir o rybudd i'r aelod y gall gyflwyno sylwadau i ymddiriedolwyr yr elusen yn egluro pam na ddylai ei aelodaeth ef neu hi gael ei ddiddymu;
- (iii) mewn cyfarfod wedi'i gynnll yn briodol o ymddiriedolwyr yr elusen, ystyried a ddylid ai peidio diddymu aelodaeth yr aelod;
- (iv) ystyried yn y cyfarfod hwnnw unrhyw sylwadau gan yr aelod yn erbyn diddymu'r aelodaeth; a
- (v) chaniatáu i'r aelod neu gynrychiolydd gyflwyno'r sylwadau hynny'n bersonol yn y cyfarfod hwnnw os yw'r aelod yn dewis hynny.

10. Penderfyniadau'r aelodau

Darpariaethau cyffredinol

Heblaw am y penderfyniadau y mae'n rhaid eu cymryd mewn ffordd benodol fel y dangosir yn is-gymal (4) o'r cymal hwn, gall aelodau'r Sefydliad gymryd penderfyniadau un ai trwy bleidlais mewn cyfarfod cyffredinol fel y darperir yn is-gymal (2) o'r cymal hwn neu trwy gynnig ysgrifenedig fel y darperir yn is-gymal (3) o'r cymal hwn,

Cymryd penderfyniadau arferol trwy bleidlais

Yn amodol ar is-gymal (4) o'r cymal hwn, gall aelodau'r Sefydliad gymryd unrhyw benderfyniad trwy gyflwyno cynnig mewn cyfarfod cyffredinol. Gellir derbyn cynnig o'r fath trwy fwyafrif syml o bleidleisiau yn y cyfarfod (gan gynnwys pleidleisiau post neu bleidleisiau e-bost).

- (3) **Cymryd penderfyniadau arferol trwy gynigion ysgrifenedig heb gyfarfod cyffredinol**
- (a) Yn amodol ar is-gymal (4) o'r cymal hwn, bydd cynnig ysgrifenedig y cytunir arno gan fwyafri syml o bob aelod a fyddai â hawl pleidleisio pe byddai'n cael ei gynnig mewn cyfarfod cyffredinol yn effeithiol, cyn belled â:
- (i) bod copi o'r cynnig arfaethedig wedi'i anfon at bob aelod sy'n gymwys i bleidleisio; a
- (ii) bod mwyafri syml o'r aelodau wedi dangos eu bod yn cytuno â'r cynnig mewn dogfen neu ddogfennau sy'n cael eu derbyn yn y brif swyddfa o fewn cyfnod o 28 diwrnod yn cychwyn ar y dyddiad cylchredeg. Mae'n rhaid i'r ddogfen yn dangos cytundeb aelod gael ei diliysu gan lofnod yr aelod hwnnw neu honno, gan ddatganiad o'i hunaniaeth i ganlyn y ddogfen neu mewn unrhyw ffordd arall y mae'r Sefydliad wedi'i bennu.
- (b) Gall y cynnig ysgrifenedig gynnwys sawl copi y mae un neu fwy o'r aelodau wedi dangos eu cytundeb iddo.
- (c) Dim ond aelodau sy'n aelod o'r Sefydliad ar y dyddiad pan gylchredwyd y cynnig gyntaf yn unol â pharagraff (a) uchod fydd yn gymwys i bleidleisio.
- (d) Gall dim llai na 25% o aelodau'r Sefydliad ofyn i ymddiriedolwyr yr elusen gyflwyno cynnig i'r aelodau benderfynu yn ei gylch.
- (e) Mae'n rhaid i ymddiriedolwyr yr elusen, o fewn 21 diwrnod o dderbyn cais o'r fath, gydymffurfio â'r cais os:
- (i) Nad yw'r cynnig yn wamal nac yn flinderus ac nad yw'n golygu cyhoeddi deunydd difriol;
- (ii) Fod y cynnig yn cael ei fynegi'n ddigon clir i allu gweithredu arno os bydd yn cael ei gytuno gan yr aelodau; a
- (iii) Gellir gweithredu'r cynnig yn gyfreithlon os bydd yn cael ei gytuno.
- (f) Gallai is-gymalau (a) i (c) o'r cymal hwn fod yn berthnasol i gynnig a gyflwynir ar gais yr aelodau.
- (4) **Penderfyniadau sy'n rhaid eu cymryd mewn ffordd benodol**
- (a) Mae'n rhaid i unrhyw benderfyniad i ddiswyddo ymddiriedolwr gael ei gymryd yn unol â chymal 15(2).
- (b) Mae'n rhaid i unrhyw benderfyniad i newid y cyfansoddiad hwn gael ei gymryd yn unol â chymal 28 o'r cyfansoddiad hwn (Newid y Cyfansoddiad).
- (c) Mae'n rhaid i unrhyw benderfyniad i ddirwyn y Sefydliad i ben neu i'w ddiddymu gael ei gymryd yn unol â chymal 29 o'r cyfansoddiad hwn (Dirwyn i ben yn wirfoddol neu ddiddymu). Mae'n rhaid cymryd unrhyw benderfyniad i uno neu drosglwyddo'r Sefydliad i un neu fwy o Sefydliadau eraill gael ei gymryd un unol â darpariaethau'r Ddeddf Elusennau 2011.

11. Cyfarfod cyffredinol o aelodau

(1) Mathau o gyfarfodydd cyffredinol

- (a) Mae'n rhaid cynnal cyfarfod cyffredinol blynnyddol o aelodau'r Sefydliad. Mae'n rhaid cynnal y cyfarfod blynnyddol cyntaf o fewn 18 mis o gofrestru'r Sefydliad ac mae'n rhaid cynnal cyfarfodydd blynnyddol dilynol ar gyfnodau o ddim hirach na 15 mis. Mae'n rhaid i'r cyfarfodydd cyffredinol blynnyddol dderbyn datganiad o gyfrifon (wedi'u harchwilio'n briodol yn ôl y gofyn), adroddiad blynnyddol yr ymddiriedolwyr a hefyd ethol ymddiriedolwyr yn unol â chymal 13.
- (b) Gellir cynnal cyfarfodydd cyffredinol eraill o aelodau'r Sefydliad r unrhyw adeg.
- (c) Gellir cynnal cyfarfodydd cyffredinol yn gorfforol, neu, os nad yw hynny naill ai'n bosibl neu, os ym marn yr ymddiriedolwyr, y gellir dod â mwy aelodau ynghyd drwy ddulliau electronig addas lle mae pob un sy'n cymryd rhan yn gallu cyfathrebu gyda phawb arall.
- (c) Mae'n rhaid cynnal pob cyfarfod cyffredinol un unol â'r darpariaethau canlynol.

(2) Galw cyfarfodydd cyffredinol

- (a) Mae'n rhaid i ymddiriedolwyr yr elusen:
- (i) alw cyfarfod cyffredinol blynnyddol o aelodau'r Sefydliad yn unol ag is-gymal (1) o'r cymal hwn a'i nodi yn y rhybudd ar gyfer y cyfarfod ei fod yn gyfarfod cyffredinol blynnyddol; a
 - (ii) gall yr ymddiriedolwyr alw unrhyw gyfarfod cyffredinol arall o'r aelodau unrhyw adeg.
- (b) Mae'n rhaid i ymddiriedolwyr yr elusen, o fewn 21 diwrnod, alw cyfarfod cyffredinol o aelodau'r Sefydliad; os:
- (i) yw'r ymddiriedolwyr yn derbyn cais i'w gynnwl gan o leiaf 10% o aelodau'r Sefydliad; a
 - (ii) bod y cais yn datgan natur gyffredinol y busnes i'w drafod yn y cyfarfod a'i fod wedi'i ddilysu gan yr aelod(au) sy'n cyflwyno'r cais.
- (c) Os, ar adeg cyflwyno cais o'r fath, na chynhaliwyd cyfarfod cyffredinol o aelodau'r Sefydliad ers mwy na 12 mis, yna bydd is-gymal (b)(i) o'r cymal hwn yn dod i rym fel pe byddai 5% yn cymryd lle 10%.
- (d) Gall unrhyw gais o'r fath gynnwys manylion cynnig y gellir ei gyflwyno'n briodol, ac y bwriedir ei gyflwyno, yn y cyfarfod.
- (e) Ni ellir cyflwyno cynnig oni bai ei fod yn gyfreithlon ac nad yw'n ddifriol, yn wamal nac yn flinderus.
- (f) Mae'n rhaid cynnal cyfarfod cyffredinol sy'n cael ei alw gan ymddiriedolwyr yr elusen ar gais aelodau o'r Sefydliad o fewn 28 diwrnod o'r dyddiad y cafodd ei alw.
- (g) Os na fydd ymddiriedolwyr yr elusen yn cydymffurfio â'r dyletswydd hwn i alw cyfarfod cyffredinol ar gais ei aelodau, yna gall yr aelodau a ofynnodd am gyfarfod alw cyfarfod cyffredinol eu hunain.

- (h) Mae'n rhaid cynnal cyfarfod cyffredinol sydd wedi'i alw fel hyn ddim hwyrach na thris mis ar ôl y dyddiad pan ofynnodd yr aelodau gyntaf am y cyfarfod.
- (i) Mae'n rhaid i'r Sefydliad ad-dalu unrhyw dreuliau rhesymol yr aelodau a alwodd y cyfarfod cyffredinol oherwydd methiant ymddiriedolwyr yr elusen i alw'r cyfarfod yn briodol, ond bydd hawl gan y Sefydliad i gael indemniad gan ymddiriedolwyr yr elusen a oedd yn gyfrifol am y methiant hwnnw.

(3) **Rhybudd o gyfarfodydd cyffredinol**

- (a) Mae'n rhaid i ymddiriedolwyr yr elusen, neu, fel arall, yr aelodau perthnasol o'r Sefydliad, roi o leiaf 14 diwrnod clir o rybudd o unrhyw gyfarfod cyffredinol i bob un o'r aelodau ac i unrhyw ymddiriedolwr elusennol o'r Sefydliad nad yw'n aelod.
- (b) Os yw dim llai na 90% o holl aelodau'r Sefydliad yn cytuno, gellir cyflwyno a derbyn unrhyw gynnig yn y cyfarfod er, efallai, na fydd gofynion is-gymal (3)(a) o'r cymal hwn wedi'u cyfarfod. Nid yw'r is-gymal hwn yn berthnasol os yw cymal arall o'r cyfansoddiad hwn, Deddf Elusennau 2011 neu'r Rheoliadau Cyffredinol, yn gofyn yn bendant am gyfnod penodol o rybudd.
- (c) Mae'n rhaid i rybudd ar gyfer unrhyw gyfarfod cyffredinol:
 - (i) ddatgan amser a dyddiad y cyfarfod;
 - (ii) ddangos y cyfeiriad lle mae'r cyfarfod i gael ei gynnal;
 - (iii) gynnwys manylion unrhyw gynnig sydd i'w gyflwyno i'r cyfarfod a natur cyffredinol unrhyw fusnes arall a fydd yn cael ei draffod yn y cyfarfod.
 - (iv) Os oes cynnig i newid cyfansoddiad y Sefydliad i'w ystyried yn y cyfarfod, dylid cynnwys testun y newid arfaethedig.
 - (v) gynnwys, gyda'r rhybudd ar gyfer y cyfarfod blynnyddol cyffredinol, ddatganiad blynnyddol o'r cyfrifon, adroddiad blynnyddol yr ymddiriedolwyr, manylion pobl sy'n sefyll i gael eu hethol neu i'w hail ethol fel ymddiriedolwyr, neu, os caniateir o dan gymal 22 (Defnyddio cyfathrebu electronig), fanylion o ble y gellir gweld yr wybodaeth ar wefan y Sefydliad.
- (d) Bydd prawf bod amlin yn cynnwys rhybudd wedi'i chyfeirio, talu amdani a'i phostio, neu fod ffurf electronig o rybudd wedi'i gyfeirio'n gywir a'i anfon, yn brawf pendant fod y rhybudd wedi'i gyflwyno. Rhagdybir bod rhybudd wedi'i gyflwyno 48 awr ar ôl ei bostio neu ei yrru.
- (e) Ni fydd trafodion cyfarfod yn cael eu annilysu oherwydd nad yw aelod oedd â hawl i dderbyn rhybudd o'r cyfarfod wedi'i dderbyn oherwydd camgymeriad damweiniol gan y Sefydliad.

(4) **Cadeirio cyfarfodydd cyffredinol**

Bydd y person a enwebwyd fel cadeirydd gan ymddiriedolwyr yr elusen o dan gymal 19(2) (Cadeirio cyfarfodydd), os bydd yn bresennol yn y cyfarfod cyffredinol a'i fod yn fodlon gweithredu, yn llywyddu fel cadeirydd y cyfarfod. Yn amodol ar hynny, bydd aelodau o'r Sefydliad sy'n bresennol mewn cyfarfod cyffredinol yn dewis cadeirydd i lywyddu'r cyfarfod.

(5) **Cworpwm mewn cyfarfodydd cyffredinol**

- (a) Ni fydd busnes yn cael ei drafod mewn unrhyw gyfarfod cyffredinol o aelodau'r Sefydliad oni bai bod cworpwm yn bresennol ar ddechrau'r cyfarfod.
- (b) Yn amodol ar y darpariaethau canlynol, y cworpwm ar gyfer cyfarfodydd cyffredinol fydd y mwyaf o 25% neu 15 o aelodau.
- (c) Os yw'r cyfarfod wedi'i alw gan neu ar gais yr aelodau ac nad oes cworpwm yn bresennol o fewn 15 munud o amser cychwyn y cyfarfod a nodwyd yn y rhybudd o'r cyfarfod, bydd y cyfarfod yn dod i ben.
- (d) Os yw'r cyfarfod wedi'i alw mewn unrhyw ffordd arall ac os nad oes cworpwm yn bresennol o fewn 15 munud o amser cychwyn y cyfarfod a nodwyd yn y rhybudd o'r cyfarfod, mae'n rhaid i'r cadeirydd ohirio'r cyfarfod. Bydd yn rhaid i ddyddiad, amser a lleoliad ail gynnnull y cyfarfod un ai gael ei gyhoeddi gan y cadeirydd neu gael ei hysbysu i aelodau'r Sefydliad o leiaf saith ddiwrnod clir cyn y dyddiad pan fydd yn ail gynnnull.
- (e) Os na fydd cworpwm yn bresennol o fewn 15 munud o gychwyn y cyfarfod sydd wedi'i ail gynnnull, bydd yr aelod neu'r aelodau sy'n bresennol yn y cyfarfod yn ffurio cworpwm.
- (f) Os, ar unrhyw adeg yn ystod y cyfarfod, nad oes cworpwm yn bresennol, gall y cyfarfod drafod materion a chyflwyno argymhellion i'r ymddiriedolwyr ond nid gymryd penderfyniadau. Os bydd penderfyniadau eu hangen y mae'n rhaid eu cymryd gan gyfarfod o aelodau, mae'n rhaid gohirio'r cyfarfod.

- (6) **Pleidleisio mewn cyfarfodydd cyffredinol**
- (a) Bydd unrhyw benderfyniad, heblaw'r rhai sy'n dod o dan gymal 10(4) (Penderfyniadau y mae'n rhaid eu cymryd mewn ffordd benodol), yn cael eu cymryd drwy fwyafrif syml o'r pleidleisiau sy'n cael eu bwrw yn y cyfarfod. Mae gan bob aelod un bleidlais.
- (b) Bydd cynnig y bydd cyfarfod yn pleidleisio arno yn cael ei benderfynu drwy ddangos dwylo, onibai (cyn, neu wrth gyhoeddi canlyniad y dangos dwylo) fod cais priodol am bleidlais bapur yn cael ei gyflwyno. Gall y cadeirydd, neu o leiaf 10% o'r aelodau sy'n bresennol yn bersonol yn y cyfarfod, fynnu pleidlais bapur neu bleidlais ddirprwy.
- (c) Os ceir cais am bleidlais bapur pan mae person yn cael ei ethol i gadeirio cyfarfod neu yngylch gohirio cyfarfod, mae'n rhaid cynnal y bleidlais bapur ar unwaith. Mae'n rhaid cynnal pleidlais bapur ar unrhyw fater arall, a'i gyhoeddi yn y fath fod y bydd ag y bydd cadeirydd y cyfarfod yn ei benderfynu, cyn belled â bod yn rhaid cynnal y bleidlais a chyhoeddi'r canlyniad o fewn 30 diwrnod o'r cais am gynnal pleidlais bapur.
- (d) Gellir cynnal pleidlais bapur:
- (i) yn y cyfarfod lle gofynnwyd amdani; neu
- (ii) ar adeg neu mewn lle arall i'w bennu gan y cadeirydd; neu
- (iii) trwy'r post neu drwy gyfathrebu'n electronig.
- (e) Os bydd y bleidlais yn gyfartal, naill ai trwy ddangos dwylo neu trwy bleidlais bapur, bydd gan gadeirydd y cyfarfod ail bleidlais, neu bleidlais fwrw.
- (f) Bydd yn rhaid codi unrhyw wrthwynebiad i gymhwyster unrhyw bleidleisydd yn y cyfarfod lle mae'r bleidlais yn cael ei chynnal a bydd penderfyniad cadeirydd y cyfarfod yn derfynol.
- (7- 9) heb eu defnyddio
- (10) **Gohirio cyfarfodydd**
- Gall y cadeirydd, gyda chaniatâd y cyfarfod lle mae cworwm yn bresennol (a bydd yn gwneud hynny os bydd yn cael ei gyfarwyddo gan y cyfarfod) ohirio'r cyfarfod tan rywbryd arall a /neu rywle arall. Ni fydd unrhyw fusnes yn cael ei drafod mewn cyfarfod wedi'i ohirio ar wahân i fusnes y gellid bod wedi'i drafod yn y cyfarfod gwreiddiol.

12. Ymddiriedolwyr yr elusen

(1) Gwaith a dyletswyddau ymddiriedolwyr yr elusen

Bydd ymddiriedolwyr yr elusen yn rheoli materion y Sefydliad, ac, at y dibenion hynny, yn ymarfer holl hawliau'r Sefydliad. Dyletswydd pob ymddiriedolwr yr elusen yw:

- (a) ymarfer eu hawliau a gwneud eu gwaith fel ymddiriedolwyr y Sefydliad mewn ffordd y maen nhw'n penderfynu mewn ewyllys da a fyddai'n debygol o hyrwyddo dibenion y Sefydliad; a
- (b) ymarfer, yn eu gwaith, y fath ofal a sgiliau ag sy'n rhesymol o dan yr amgylchiadau o gofio'n benodol am:
 - (i) unrhyw wybodaeth neu brofiad penodol sydd ganddyn nhw, neu y maen nhw'n honni sydd ganddyn nhw; ac
 - (ii) os yd yn nhw'n gweithredu fel ymddiriedolwyr y Sefydliad oherwydd eu gwaith neu eu proffesiwn, unrhyw wybodaeth neu brofiad arbennig y mae'n rhesymol ddisgwyl fyddai gan berson yn gwneud y math hwnnw o waith neu broffesiwn.

(2) Cymhwyster i fod yn ymddiriedolwr

- (a) Mae'n rhaid i bob ymddiriedolwr elusen fod yn berson naturiol.
- (b) Ni ellir penodi unrhyw un yn ymddiriedolwr elusen:
 - os yw o dan 16 oed, neu
 - os byddai'n awtomatig yn gadael y swydd o dan ddarpariaethau cymal 15(1)(f).
- (c) Nid oes gan unrhyw un hawl i weithredu fel ymddiriedolwr elusen, wrth gael ei benodi neu gael ei ail benodi, nes eu bod wedi cydnabod yn benodol, ym mha ffordd bynnag y bydd yr elusen y penderfynu y dylid gwneud hynny, ei fod neu ei bod wedi derbyn swydd o ymddiriedolwr yr elusen.

(3) Nifer ymddiriedolwyr yr elusen

- (a) Dylai fod yna:
 - 1 ymddiriedolwr ex officio
 - 2 ymddiriedolwr wedi'i hethol
 - 2 o ymddiriedolwyr wedi'u penodi
 - 1 ymddiriedolwr wedi'i gyfethol.
- (b) Mae'n rhaid i'r elusen gael o leiaf bedwar o ymddiriedolwyr. Os bydd y nifer yn disgyn yn is na'r isafswm hwn, dim ond i alw cyfarfod o ymddiriedolwyr yr elusen, neu i benodi ymddiriedolwr newydd i'r elusen, y gall yr ymddiriedolwr neu ymddiriedolwyr sy'n dal ar ôl, weithredu.
- (c) Mae'r nifer fwyaf o ymddiriedolwr yr elusen y gellir eu penodi'n cael ei ddangos yn is-gymal (a) o'r cymal hwn. Ni ellir penodi mwy o ymddiriedolwyr nag sydd yn y darpariaethau hyn.

(4) Ymddiriedolwyr cyntaf yr elusen

Ymddiriedolwyr cyntaf elusen y Sefydliad yw -

.....
.....
.....
.....
.....

13. Penodi ymddiriedolwyr i'r elusen

(1) Ymddiriedolwyr ex officio yr elusen

Bydd Esgob Bangor, ar y pryd ("deilydd y swydd") yn awtomatig, oherwydd ei fod yn dal y swydd honno ("ex officio"), yn ymddiriedolwr yr elusen

(2) Os nad yw'n fodlon gweithredu fel ymddiriedolwr yr elusen, gall deilydd swydd:

- (a) cyn derbyn penodiad fel ymddiriedolwr yr elusen, gyflwyno rhybudd ysgrifenedig i'r ymddiriedolwr yn egluro nad yw'n fodlon derbyn y penodiad; neu
- (b) ar ôl derbyn penodiad fel ymddiriedolwr yr elusen, ymddiswyddo o dan y darpariaethau sydd yng nghymal 15 (Ymddeol a diswyddo ymddiriedolwyr elusen).

Bydd swydd ymddiriedolwr ex officio elusen yn dal yn wag ar ôl hynny nes bod deilydd y swydd yn peidio â dal y swydd.

(4) Ymddiriedolwr yr Elusen a Enwebir

- (a) Bydd yr aelodau'n penodi dau ymddiriedolwr yr elusen mewn cyfarfod cyffredinol.
- (b) Mae'n rhaid i bob penodiad fod am dymor o 5 mlynedd.
- (c) Bydd y penodiad yn effeithiol o'r diweddaraf o:
 - (i) y dyddiad pan ddaeth y swydd yn wag; neu
 - (ii) y dyddiad pan hysbysir y Sefydliad o'r penodiad.
- (d) Nid oes raid i'r person a benodir fod yn aelod o'r Sefydliad a rhaid iddo neu iddi beidio a bod yn aelod o Fwrdd Cyllid Esgobaeth Bangor.
- (e) Mae gan ymddiriedolwr sy'n cael ei benodi gan yr aelodau yr un dyletswydd o dan Gymal 12(1) ag sydd gan ymddiriedolwyr eraill yr elusen i weithredu yn y ffordd y bydd yn penderfynu mewn ewyllys da a fyddai fwyaf tebyg o hyrwyddo dibenion y Sefydliad.

(5) Ymddiriedolwyr yr Elusen a Benodir

- (a) Bydd Esgob Bangor yn penodi 1 ymddiriedolwr. Nid oes raid i'r person a benodir fod yn aelod o'r Sefydliad a rhaid iddo neu iddi beidio a bod yn aelod o Fwrdd Cyllid Esgobaeth Bangor.
- (b) Bydd yr Archdeaconiaid yn Esgobaeth Bangor a Deon Cadeirlan Bangor yn penodi o'u plith 1 ymddiriedolwr.
- (c) Mae'n rhaid i bob penodiad fod am dymor o 5 mlynedd.
- (d) Mae gan ymddiriedolwr sy'n cael ei benodi gan y corff penodi yr un dyletswydd o dan Gymal 12(1) ag sydd gan ymddiriedolwyr eraill yr elusen i weithredu yn y ffordd y bydd yn penderfynu mewn ewyllys da a fyddai fwyaf tebyg o hyrwyddo dibenion y Sefydliad.

(6) Ymddiriedolwyr Cyfetholedig yr Elusen:

- (a) Gall yr ymddiriedolwyr gyfethol 1 ymddiriedolwr. Nid oes raid i'r person a benodir fod yn aelod o'r Sefydliad a rhaid iddo neu iddi beidio a bod yn aelod o Fwrdd Cyllid Esgobaeth Bangor
- (b) Mae'n rhaid i unrhyw benodiad gael ei wneud mewn cyfarfod o'r ymddiriedolwyr.
- (c) Mae'n rhaid i bob penodiad fod am dymor o 5 mlynedd.
- (d) Mae gan ymddiriedolwr sy'n cael ei benodi gan y corff penodi yr un dyletswydd o dan Gymal 12(1) ag sydd gan ymddiriedolwyr eraill yr elusen i weithredu yn y ffordd y bydd yn penderfynu mewn ewyllys da a fyddai fwyaf tebyg o hyrwyddo dibenion y Sefydliad.

Gymnig

14. Gwybodaeth i ymddiriedolwyr newydd yr elusen

Bydd ymddiriedolwyr yr elusen yn rhoi ar gael i bob ymddiriedolwr newydd o'r elusen, ar neu cyn eu penodiad:

- (a) gopi o'r cyfansoddiad hwn ac unrhyw newidiadau iddo; a
- (b) copi o adroddiad blynnyddol a datganiad o gyfrifon diweddaraf y Sefydliad.

15. Ymddeol a diswyddo ymddiriedolwyr yr elusen

(1) Ni fydd ymddiriedolwr yr elusen bellach mewn swydd os bydd yn:

- (a) ymddeol trwy hysbysu'r Sefydliad yn ysgrifenedig (oni bai na fydd digon o ymddiriedolwyr yr elusen yn dal mewn swydd ar ôl yr ymddeoliad i ffurfio cworwm ar gyfer cyfarfodydd);
- (b) absennol heb ganiatâd ymddiriedolwyr yr elusen o'u holl gyfarfodydd a gynhalwyd o fewn cyfnod o chwe mis a bod yr ymddiriedolwyr yn penderfynu bod y swydd wedi dod yn wag;
- (c) marw;
- (d) ym marn ysgrifenedig, a roddir i'r cwmni, gan ymarfer y ddwyol trwyddedig sy'n trin y person, fod y person hwnnw wedi dod yn gorfforol neu'n feddyliol analluog i weithredu fel ymddiriedolwr ac y gallai barhau felly am fwy na thri mis.
- (e) nad yw'n ymddiriedolwr ex officio a'i fod yn cael ei ddiswyddo gan aelodau'r Sefydliad yn unol ag is-gymal (2) o'r cymal hwn; neu
- (f) ei fod wedi'i wahardd rhag gweithredu fel ymddiriedolwr elusen o dan adran 178-180 o Ddeddf Elusennau 2011 (neu unrhyw aildeddafiad neu addasiad o'r ddarpariaeth honno).

(2) Bydd ymddiriedolwr yr elusen yn cael ei ddiswyddo os bydd cynnig i ddiswyddo'r ymddiriedolwr hwnnw yn cael ei gynnig mewn cyfarfod cyffredinol o'r aelodau a alwyd at y diben hwnnw, a'i fod yn cael ei gynnal yn unol â chymal 11, a bod y cynnig yn cael ei dderbyn gan 75% o'r pleidleisiau a gafodd eu bwrw yn y cyfarfod hwnnw.

(3) Ni ddaw cynnig i ddiswyddo ymddiriedolwr elusen yn unol â'r cymal hwn i rym oni bai bod yr unigolyn o dan sylw wedi cael o leiaf 14 niwrnod clir o rybudd yn ysgrifenedig y bydd y cynnig yn cael ei gyflwyno, gan nodi'r amgylchiadau yr honnir sy'n cyflawnhau diswyddo, a'i fod wedi cael cyfle rhesymol o gyflwyno sylwadau llafar neu ysgrifenedig i aelodau'r Sefydliad.

16. Ail benodi ymddiriedolwyr i'r elusen

Bydd unrhyw berson sy'n ymddeol fel ymddiriedolwr elusen ar ddiwedd eu tymor mewn swydd, neu trwy gyflwyno rhybudd i'r Sefydliad, yn gymwys i gael ei ailbenodi. Ni fydd ymddiriedolwr elusen sydd wedi bod mewn swydd am dri thymor yn olynol yn cael ei ailbenodi ar gyfer pedwerydd tymor penodol ond gellir ei ailbenodi ar ôl ysbaid o dair blynedd o leiaf.

17. Cymryd penderfyniadau gan ymddiriedolwyr yr elusen

Gellir cymryd unrhyw benderfyniad nail ai:

- (a) mewn cyfarfod o ymddiriedolwyr yr elusen; neu
- (b) drwy benderfyniad ysgrifenedig neu ar ffurf electronig a gytunwyd gan fwyafrif ymddiriedolwyr yr elusen, a allai gynnwys dogfen syml neu sawl dogfen yn cynnwys testun y penderfyniad ar ffurf y mae mwyafrif holl ymddiriedolwyr yr elusen wedi cytuno arno. Bydd penderfyniad o'r fath yn effeithiol, cyn bellid â
 - (i) bod copi o'r penderfyniad arfaethedig wedi'i anfon, yr un pryd neu mor ymarferol agos at hynny, at bob ymddiriedolwr yr elusen; a
 - (ii) bod y mwyafrif o ymddiriedolwyr yr elusen wedi dangos eu bod yn cytuno â'r penderfyniad mewn dogfen neu ddogfennau sydd wedi'u dilysu gan eu llofnodion, gan ddatganiad o'u hunaniaeth sydd i ganlyn y ddogfen neu'r ddogfennau, neu mewn unrhyw ffordd arall y penderfynodd ymddiriedolwyr yr elusen yn ei chylch, ac wedi'u danfon at y Sefydliad yn ei brif swyddfa neu i unrhyw le arall yn ôl penderfyniad yr ymddiriedolwyr o fewn 14 diwrnod o ddyddiad y cylchredeg.

18. Dirprwyo gan ymddiriedolwyr yr elusen

- (1) Gall ymddiriedolwyr elusen ddirprwyo unrhyw rai o'u hawliau neu eu gwaith i bwyllgor neu bwyllgorau ac, os gwneir hynny, mae'n rhaid iddyn nhw benderfynu ar delerau ac amodau'r dirprwyo. Gall ymddiriedolwyr elusen newid y telerau a'r amodau hyn unrhyw bryd, neu ddiddymu'r dirprwyad.
- (2) Mae'r hawl hwn yn ychwanegol at yr hawl i ddirprwyo sydd yn y Rheoliadau Cyffredinol ac at unrhyw hawl arall i ddirprwyo sydd ar gael i ymddiriedolwyr yr elusen ond mae'n amodol ar y gofynion canlynol -
 - (a) gall pwyllgor gynnwys dau neu fwy o bobl ond mae'n rhaid i o leiaf un aelod o bob pwyllgor fod yn ymddiriedolwr yr elusen;
 - (b) mae'n rhaid i weithredoedd a thrafodaethau unrhyw bwyllgor gael eu dwyn i sylw ymddiriedolwr yr elusen yn eu cyfanrwydd gynted ag y mae hynny'n rhesymol ymarferol; a
 - (c) bydd ymddiriedolwyr yr elusen, o dro i dro, yn adolygu'r trefniadau y maen nhw wedi'u gwneud i ddirprwyo eu hawliau.

19. Cyfarfodydd a thrafodaethau ymddiriedolwyr yr elusen

(1) Galw cyfarfodydd

- (a) Gall unrhyw ymddiriedolwr yr elusen alw cyfarfod o ymddiriedolwyr yr elusen.
- (b) Yn amodol ar hynny, bydd ymddiriedolwyr yr elusen yn penderfynu sut mae eu cyfarfodydd yn cael eu galw.

(2) Cadeirio Cyfarfodydd

Bydd yr Esgob yn cadeirio. Os nad oes Esgob yn bresennol, neu os nad yw'r Esgob yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod, neu os nad yw'n bresennol 10 munud ar ôl amser cychwyn y cyfarfod, bydd yr ymddiriedolwyr yn penodi un o blith ei gilydd i gadeirio'r cyfarfod.

(3) Trefniadau cyfarfodydd

- (a) Ni fydd unrhyw benderfyniad yn cael ei gymryd yn y cyfarfod oni bai bod cworwm yn bresennol pan fydd penderfyniad yn cael ei gymryd. Y cworwm yw pedwar o ymddiriedolwyr yr elusen, neu'r nifer agosaf at draean o gyfanswm nifer ymddiriedolwyr yr elusen, pa un sydd fwyaf. Ni fydd ymddiriedolwr elusen yn cael ei gyfrif ar gyfer y cworwm sy'n bresennol pan fydd unrhyw benderfyniad yn cael ei gymryd ynghylch mater nad oes ganddo ef neu hi hawl i bleidleisio arno.
- (b) Bydd cwestiynau sy'n codi yn y cyfarfod yn cael eu penderfynu gan fwyafrif y rhai sy'n gymwys i bleidleisio.
- (c) Os bydd pleidleisiau'n gyfartal, bydd gan y cadeirydd ail bleidlais neu bleidlais fwrw.

(4) Cymryd rhan mewn cyfarfodydd trwy ddulliau electronig

- (a) Gellir cynnal cyfarfod trwy ddulliau electronig trwy gytundeb ymddiriedolwyr yr elusen a phan fydd pawb sy'n cymryd rhan yn gallu cyfathrebu y naill gyda'r llall.
- (b) Bydd unrhyw ymddiriedolwr yrelusen sy'n cymryd rhan mewn cyfarfod trwy ddull electronig addas gyda chytundeb ymddiriedolwyr yr elusen, gyda phawb sy'n cymryd rhan yn gallu cyfathrebu yn naill gyda'r llall, yn cael eu cyfrif yn bresennol yn y cyfarfod.
- (c) Bydd yn rhaid i gyfarfodydd sy'n cael eu cynnal trwy ddulliau electronig gydymffurfio â'r rheolau ar gyfer cyfarfodydd, gan gynnwys cadeirio a chymryd cofnodion.

20. Darpariaethau Arbed

- (1) Yn amodol ar is-gymal (2) o'r cymal hwn, bydd pob penderfyniad gan ymddiriedolwyr elusen, neu o bwyllgor o ymddiriedolwyr elusen yn ddilys er bod ymddiriedolwr elusen wedi cymryd rhan mewn unrhyw bleidlais:
- (i) oedd wedi'i wahardd rhag dal swydd;
 - (ii) a oedd wedi ymddeol neu a oedd yn rhaid yn ôl y cyfansoddiad adael y swydd;
 - (iii) nad oedd â hawl i bleidleisio ar y mater, oherwydd gwrthdaro buddiannau neu fel arall;
 - (iv) os, heb bleidlais yr ymddiriedolwr hwnnw neu honno o'r elusen a bod yr ymddiriedolwr wedi'i gyfrif yn y cworwm, fod y penderfyniad wedi'i gymryd gan y mwyafrif o ymddiriedolwyr yr elusen mewn cyfarfod lle'r oedd cworwm.
- (2) Nid yw is-gymal (1) o'r cymal hwn yn caniatáu i ymddiriedolwr yr elusen gadw unrhyw fudd a fyddai'n disgyn i'w ran o ganlyniad i benderfyniad ymddiriedolwyr yr elusen neu unrhyw bwyllgor o ymddiriedolwyr yr elusen, os, oni bai am gymal (1), y byddai'r penderfyniad yn ddi-rym neu os nad yw ymddiriedolwr yr elusen wedi cydymffurfio â chymal 7 (Gwrthdaro buddiannau).

21. Cyflawni dogfennau

- (1) Bydd y Sefydliad yn cyflawni dogfennau un ai trwy lofnodi neu drwy osod ei sêl (os oes ganddo un).
- (2) Mae dogfen wedi'i chyflawni'n ddilys drwy lofnod os yw wedi cael ei llofnodi gan o leiaf ddau o ymddiriedolwyr yr elusen.
- (3) Os oes gan y Sefydliad sêl:
- (a) mae'n rhaid iddo gydymffurfio a'r Rheoliadau Cyffredinol; a
 - (b) mae'n rhaid ei ddefnyddio gydag awdurdod ymddiriedolwyr yr elusen neu o bwyllgor o ymddiriedolwyr yr elusen sydd wedi'i awdurdodi gan ymddiriedolwyr yr elusen. Gall ymddiriedolwyr yr elusen benderfynu pwy fydd yn llofnodi unrhyw ddogfen y gosodir y sêl arni ac, oni phenderfynir fel arall, bydd yn cael ei llofnodi gan ddau o ymddiriedolwyr yr elusen.

22. Dulliau electronig o gyfathrebu

(1) Cyffredinol

Bydd y sefydliad yn cydymffurfio gyda gofynion y Darpariaethau Cyfathrebu yn y Rheoliadau Cyffredinol ac yn benodol:

- (a) y gofyniad i ddarparu, o fewn 21 diwrnod, ar gais i unrhyw aelod, gopi caled o unrhyw ddogfen neu wybodaeth a anfonwyd at yr aelodau ar ffurf heblaw copi caled;
- (b) unrhyw ofyniad i ddarparu gwybodaeth i'r Comisiwn ar ffurf neu fodd penodol.

(2) At y Sefydliad

Gall unrhyw aelod neu ymddiriedolwr yr elusen gyfathrebu'n electronig gyda'r Sefydliad trwy gyfeiriad a nodir gan y Sefydliad at y diben hwnnw, cyn belled â bod y cyfathrebiad yn cael ei ddilysu mewn modd sy'n bodloni'r Sefydliad.

(3) Oddi wrth y Sefydliad

- (a) Cymerir fod unrhyw aelod neu ymddiriedolwr elusen y Sefydliad, trwy gyflwyno eu cyfeiriad e-bost neu debyg, wedi cytuno i dderbyn cyfathrebiadau gan y Sefydliad ar ffurf electronig yn y cyfeiriad hwnnw, oni bai fod yr aelod wedi hysbysu'r Sefydliad nad yw'n fodlon derbyn cyfathrebiadau ar y ffurf honno.
- (b) Gall ymddiriedolwyr yr elusen, yn amodol ar gydymffurfio ag unrhyw ofyniad cyfreithiol, drwy gyhoeddi ar ei wefan -
 - (i) ddarparu i'r aelodau'r rhybudd y cyfeirir ato yng nghymal 11(3) (Rhybudd o gyfarfodydd cyffredinol);
 - (ii) gyflwyno rhybudd i ymddiriedolwyr elusennau o'u cyfarfodydd yn unol â chymal 19(1) (Galw cyfarfodydd);
- (c) Mae'n rhaid i ymddiriedolwyr yr elusen:
 - (i) gymryd camau rhesymol i sicrhau fod aelodau ac ymddiriedolwyr yr elusen yn cael eu hysbysu'n brydlon pan fydd rhybudd neu gynnig o'r fath yn cael ei gyhoeddi.
 - (ii) anfon unrhyw rybudd neu gynnig o'r fath fel copi caled at unrhyw aelod neu ymddiriedolwr o'r elusen nad yw wedi cytuno i dderbyn cyfathrebiadau ar ffurf electronig.

23. Cadw Cofrestrau

Mae'n rhaid i'r Sefydliad gydymffurfio â'i gyfrifoldebau o dan y Rheoliadau Cyffredinol o ran cadw, a darparu mynediad at, gofrestrau o'i aelodau ac ymddiriedolwyr yr elusen.

24. Cofnodion

Mae'n rhaid i ymddiriedolwyr yr elusen gadw cofnod o bob:

- (1) penodiad o swyddogion a wnaed gan ymddiriedolwyr yr elusen;
- (2) trafodion cyfarfodydd cyffredinol y Sefydliad;
- (3) cyfarfodydd ymddiriedolwyr yr elusen a chyfarfodydd yr elusen gan gynnwys:
 - (i) enwau'r ymddiriedolwyr yn bresennol yn y cyfarfod;
 - (ii) y penderfyniadau a gymerwyd mewn cyfarfodydd; a
 - (iii) yn ôl y gofyn, y rhesymau dros y penderfyniad;

- (4) penderfyniadau a wnaed gan ymddiriedolwyr yr elusen heblaw mewn cyfarfodydd.

25. Cofnodion cyfrifo, cyfrifon, adroddiadau a datganiadau blynnyddol, cynnal y gofrestr

- (1) Mae'n rhaid i ymddiriedolwyr yr elusen gydymffurfio gyda gofynion Deddf Elusennau 2011 o ran cadw cofnodion cyfrifo, paratoi a chraffu ar ddatganiadau cyfrifon a pharatoi adroddiadau a datganiadau blynnyddol. Mae'n rhaid anfon y cyfrifon, adroddiadau a datganiadau at y Comisiwn Elusennau waeth beth yw incwm y Sefydliad, o fewn 10 mis o ddiwedd y flwyddyn ariannol.
- (2) Mae'n rhaid i ymddiriedolwyr yr elusen gydymffurfio a'u dyletswydd i hysbysu'r Comisiwn o fewn 28 diwrnod o unrhyw newid yn y manylion y mae'r Sefydliad wedi'i osod ar y Gofrestr Gyffredinol Elusennau.

26. Rheolau

Gall ymddiriedolwyr elusen, o dro i dro, wneud y fath reolau neu is-ddeddfau rhesymol a phriodol a ystyrrir yn angenrheidiol neu'n hwylus ar gyfer rheoli a rhedeg y Sefydliad yn briodol, ond rhaid i'r rheolau neu'r is-ddeddfau hynny beidio â bod yn anghyson ag unrhyw ddarpariaeth yn y cyfansoddiad. Mae'n rhaid i gopiâu o unrhyw reolau neu is-ddeddfau o'r fath fod ar gael i unrhyw aelod o'r Sefydliad ar gais.

27. Anghydfod

Os bydd anghydfod yn codi rhwng aelodau'r Sefydliad ynghylch diliusrwydd neu briodoldeb unrhyw beth a wnaed gan yr aelodau o dan y cyfansoddiad hwn, ac na ellir datrys yr anghydfod drwy gytundeb, mae'n rhaid i'r partïon i'r anghydfod, i ddechrau, geisio, mewn ewyllys da, setlo'r anghydfod trwy gyfryngu cyn mynd â'r mater i gyfraith.

28. Newid y cyfansoddiad

Fel y darperir gan gymalau 224-227 o Ddeddf Elusennau 2011:

- (1) Yr unig ffordd y gellir newid y cyfansoddiad yw:
- (a) trwy benderfyniad a gytnwyd yn ysgrifenedig gan bob aelod o'r Sefydliad; neu
 - (b) trwy gynnig a gafodd ei dderbyn gan fwyafri o 75% o'r pleidleisiau mewn cyfarfod cyffredinol o aelodau'r Sefydliad.
- (2) Bydd gofyn cael caniatâd ysgrifenedig y Comisiwn Elusennau o flaen llaw i newid cymal 3 (Gwrthrychau), cymal 29 (Dirwyn i ben neu ddiddymu'n wirfoddol), y cymal hwn neu unrhyw ddarpariaeth ble byddai'r newid yn awdurdodi ymddiriedolwyr neu aelodau'r Sefydliad neu bersonau cysylltiedig â nhw, i gael unrhyw fudd.
- (3) Ni fydd unrhyw newid nad yw'n gyson â darpariaethau'r Ddeddf Elusennau 2011 neu'r Rheoliadau Cyffredinol yn ddilys.
- (4) Mae'n rhaid anfon copi unrhyw benderfyniad yn newid y cyfansoddiad, gyda chopi o gyfansoddiad y Sefydliad wedi'i newid, at y Comisiwn o fewn 15 niwrnod o ddyddiad cymryd y penderfyniad. Ni fydd y newid yn dod i rym nes ei fod wedi'i gofnodi yn y Gofrestr Elusennau.

29. Dirwyn i ben neu ddiddymu'n wirfoddol

- (1) Fel y darperir gan y Rheoliadau Diddymu, gellir diddymu'r Sefydliad trwy benderfyniad gan ei aelodau. Bydd yn rhaid i unrhyw benderfyniad gan yr aelodau i ddirwyn i ben neu ddiddymu'r Sefydliad gael ei gymryd:
- (a) mewn cyfarfod cyffredinol o aelodau'r Sefydliad a gynllwyd yn unol â chymal 11 (Cyfarfodydd Aelodau) ac y rhoddwyd dim llai na 14 niwrnod o rybudd i'r rhai sy'n gymwys i fod yn bresennol ac i bleidleisio.
 - (i) gan benderfyniad a gafodd ei dderbyn gan fwyafri o 75% o'r rhai a bleidleisiodd, neu
 - (ii) gan benderfyniad a gafodd ei dderbyn heb bleidlais a heb unrhyw fynegiant o wrthwynebiad mewn ymateb i'r cwestiwn a gyflwynwyd mewn cyfarfod cyffredinol; neu
 - (b) trwy benderfyniad a gytnwyd yn ysgrifenedig gan bob aelod o'r Sefydliad.
- (2) Yn amodol ar dalu holl ddyledion y Sefydliad:
- (a) Gall unrhyw benderfyniad ar gyfer dirwyn y Sefydliad i ben neu i ddiddymu'r Sefydliad heb ei ddirwyn i ben gynnwys darpariaeth ar gyfer cyfarwyddo sut y dylid trin unrhyw asedau sydd ar ôl gan y Sefydliad.
 - (b) Os nad yw'r penderfyniad yn cynnwys darpariaeth o'r fath, mae'n rhaid i ymddiriedolwyr yr elusen benderfynu sut y dylid ymdrin ag unrhyw asedau sy'n dal ar ôl gan y Sefydliad.
